

RHYBUDD O GYFARFOD



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Emyr Williams

Prif Weithredwr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Penrhyndeudraeth

Gwynedd LL48 6LF

Ffôn: (01766) 770274

E.bost: parc@eryri.llyw.cymru

Cyfarfod: Pwyllgor Cynllunio a Mynediad

Dyddiad: Dydd Mercher 7fed o Fedi 2022

Amser: 10.00 y.b.

Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

*Councillor: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes
June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts,
John Pughe Roberts, Meryl Roberts;*

Members appointed by Conwy County Borough Council

Councillor: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

Members appointed by The Welsh Government

*Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle,
Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde – Thompson, Ms. Delyth Lloyd.*

RHAGLEN

| | Rhif Tudalennau |
|---|----------------------------|
| 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau'r Cadeirydd. | |
| 2. Datgan Diddordeb Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes. | |
| 3. Cofnodion Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2022 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir (copi yma) a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth. | 3 - 8 |
| 4. Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir Cyflwyno adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir am y ceisiadau a ddaeth i law. (Copïau yma) | 9 - 42 |
| 5. Adroddiad Ardaloedd Cadwraeth Cyflwyno adroddiad | 43 - 46 |
| 6. Adroddiadau Diweddarau Cyflwyno adroddiadau diweddarau, er gwybodaeth. (Copïau yma) | 47 - 73 |
| 7. Penderfyniadau a Ddirprwywyd Cyflwyno rhestr o geisiadau sydd wedi cael eu penderfynu yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd, er gwybodaeth. (Copi yma) | 74 - 84 |
| 8. Penderfyniad Apél Cyflwyno adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar benderfyniad yr Arolygydd i wrthod apêliadau i (i) godi annedd menter gwledig, Maes Gwersylla Nyth Robin, Aberdyfi. Apél gan Mr Grant Scott, a (ii) dymchwel portsh blaen a phenty ochr presennol, a chodi estyniadau unllawr newydd i'r blaen a ochr. Hen Gaerffynnon, Ffordd Isa, Harlech. Apêl gan Mr R Mathias. (Amgaeir copi o benderfyniad yr Arolygydd – Copi yma) | 85 - 94 |

Pwyllgor Cynllunio a Mynediad 29.06.22

**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDD MERCHER 29 MEHEFIN 2022**

PRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Ms. Sarah Hattle, Ms. Naomi Luhde-Thompson, Mr. Owain Wyn;

Swyddogion

Mr. G. Iwan Jones, Mr. Jonathan Cawley, Mrs. Jane Jones, Mr. Richard Thomas, Ms. Elen Hughes, Ms. Sophie Berry, Mr. Dafydd Thomas, Mrs. Sarah Roberts.

Gan fod y cyfarfod yn cael ei gynnal o bell, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol:-

- o bod Hysbysiad o'r Cyfarfod wedi'i gyhoeddi a bod yr Agenda a'r adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- o nad oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- o roedd y cyfarfod yn cael ei gofnodi er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion a bydd ar gael ar wefan yr Awdurdod yn ddiweddarach.

1. **Cadeirydd**
Etholwyd y Cynghorydd Elwyn Edwards yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.
Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.
2. **Is-Gadeirydd**
Etholwyd y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd yn Is-Gadeirydd ar y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.
Diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.
3. **Ymddiheuriadau**
Cynghorydd. Meryl Roberts; Mr Tim Jones.
4. **Datgan Budd**
Datganodd Ms. Tracey Evans fuddiant personol yn eitem 10 ar yr agenda o dan baragraffau 10 (2)(c)(i) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau.
5. **Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar 18 Mai 2022 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

6. **Penodi Aelodau i wasanaethu ar Baneli Ymweld y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir i benodi Aelodau ar Baneli Ymweld yr Awdurdod.

PENDERFYNWYD penodi Aelodau fel a ganlyn:-

Panel Ymweld y Gogledd
(9 Aelod)

- 1) Cyng. June Jones
- 2) Cyng. Kim Jones
- 3) Cyng. Ifor Glyn Lloyd
- 4) Cyng. Jo Nuttall
- 5) Cyng. Edgar Wyn Owen
- 6) Cyng. Dilwyn Owain Roberts
- 7) Ms. Tracey Evans
- 8) Mr Tim Jones
- 9) Ms. Naomi Luhde-Thompson

Panel Ymweld y De
(9 Aelod)

- 1) Cyng. Elwyn Edwards
- 2) Cyng. Annwen Hughes
- 3) Cyng. Louise Hughes
- 4) Cyng. Elf Powell Roberts
- 5) Cyng. John Pughe Roberts
- 6) Cyng. Meryl Roberts
- 7) Mr Brian Angell
- 8) Mrs Sarah Hattle
- 9) Ms Delyth Lloyd

7. **Canllawiau Cynllunio Atodol: Tirweddau Llechi Safle Treftadaeth y Byd Gogledd Orllewin Cymru.**

Cyflwynwyd - Adroddiad ar y cyd gan Reolwr Polisi Cynllunio, Cyngor Môn a Gwynedd a Swyddog Cynllunio Amgylchedd Hanesyddol yr Awdurdod i gymeradwyo'r Canllaw Cynllunio Atodol: Tirweddau Llechi Safle Treftadaeth y Byd Gogledd Orllewin Cymru i'w fabwysiadu.

Adroddwyd – Cyflwynodd Swyddog Cynllunio Amgylchedd Hanesyddol yr adroddiad a'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft a chadarnhaodd fod Cabinet Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu'r CCA y diwrnod cynt heb newidiadau.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth fanwl i'r adroddiad a'r Canllawiau Cynllunio Atodol drafft a gwnaethant y sylwadau a ganlyn: -

- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd Swyddog Cynllunio'r Amgylchedd Hanesyddol faint o ardaloedd o'r Parc Cenedlaethol oedd wedi'u cynnwys yn y CCA a chyfeiriodd at y map ar dudalen tri deg dau o'r rhaglen.
- croesawodd aelod y ddogfen, ac mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Swyddog Cynllunio'r Amgylchedd y byddai'r ddogfen fel arfer yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod, ond bod modd hefyd cylchredeg e-bost neu roi postiad ar y cyfryngau cymdeithasol i roi gwybod i bobl bod y ddogfen wedi cael ei mabwysiadu.
- Teimlai Aelod ei bod yn bwysig hysbysu'r Cynghorau Cymuned yn yr ardaloedd perthnasol. Cytunodd Swyddog Cynllunio'r Amgylchedd y gellid cynnwys nodyn byr yn yr e-bost yn hysbysu'r Cynghorau Cymuned perthnasol o'r newidiadau a wnaed. Teimlai'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir y byddai hefyd yn fuddiol hysbysu Asiantau Cynllunio a Datblygwyr.
- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Swyddog Cynllunio'r Amgylchedd er nad oedd ardal Blaenau Ffestiniog yn y Parc Cenedlaethol, byddai'r Awdurdod yn cael ei hysbysu fel ymgynghorai ar unrhyw geisiadau a gyflwynir.

- Hysbysodd Swyddog Cynllunio'r Amgylchedd yr aelodau am y broses o adolygu'r CCA a'r Cynllun Datblygu Lleol. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd hefyd fod y ddogfen mor barod â phosibl ar gyfer y dyfodol.
- Nododd Aelod wall teipograffyddol ar dudalen 42 yn yr adroddiad Cymraeg a ddylai ddarllen "cydran" yn lle "di cydran".
- Mewn ymateb i gais gan aelod, hysbysodd Swyddog Cynllunio'r Amgylchedd yr Aelodau am y broses o adolygu'r CCA.
- Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Swyddog Cynllunio'r Amgylchedd y byddai unrhyw gyfraniad i'r gymuned leol yn dibynnu ar raddfa unrhyw ddatblygiad. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir er na ddaeth unrhyw fudd ariannol i enwebu Statws Safle Treftadaeth y Byd y byddai cyfleoedd o bosibl i wneud cais am arian grant ac unrhyw ffynonellau cyllid eraill sydd ar gael.

PENDERFYNWYD

- 1. nodi cynnwys yr adroddiad ymgynghori.**
- 2. mabwysiadu'n ffurfiol CCA Tirweddau Llechi Safleoedd Treftadaeth y Byd Gogledd Orllewin Cymru i'w ddefnyddio fel ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth wneud penderfyniadau o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.**
- 3. dirprwyo'r hawl i'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir wneud unrhyw addasiadau ansylweddol, y gall fod eu hangen i'r CCA drafft cyn iddo gael ei gyhoeddi ar y wefan.**

8. **Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir**
Cyflwynwyd – Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar geisiadau cynllunio a materion cydymffurfio.

Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

9. **Adroddiadau Diweddarau**
Cyflwynwyd – Adroddiadau diweddarau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar geisiadau cynllunio a materion cydymffurfio.

Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

10. **Penodi Sedd Wag Achlysurol ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol De Eryri**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Rheolwr Mynediad a Lles ac Ysgrifennydd y Fforymau Mynediad Lleol i gymeradwyo penodi un swydd wag achlysurol ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol y De.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Rheolwr Mynediad a Lles yr adroddiad a'r cefndir a chroesawodd yr aelodau newydd i'r cyfarfod.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r penodiad arfaethedig i'r swydd wag achlysurol Fforwm Mynediad Lleol y De.

11. **Penderfyniadau Dirprwyedig**
Cyflwynwyd a Derbyniwyd – Rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad .

12. **Apêl Cynllunio**

Cyflwynwyd a Derbyniwyd – copi o'r penderfyniad apêl a ganlyn :-

Apêl gan Mr. George Borthwick mewn perthynas â gwrthodiad i roi caniatâd cynllunio a gyflwynwyd gan yr Awdurdod "i storio un garafán deithiol sydd â chaniatâd cynllunio i'w defnyddio fel llety byw am wyth diwrnod ar hugain mewn unrhyw flwyddyn", Tir gyferbyn â Man Claddu'r Crynwyr, Llwyngwriil. (Gwrthodwyd yr apêl)

Daeth y cyfarfod i ben am 11.20

ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 29 MEHEFIN 2022

Rhif yr Eitem.

4. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir

(1) NP4/13/61B – Bwriad i godi is-orsaf drydan 11kv, Maes Parcio, Capel Curig.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Swyddog Achos yr adroddiad a'r cefndir a rhoddodd grynodedb o'r cais i'r aelodau newydd. Dywedodd y Swyddog Achos fod y cais yn ymdrin â diwygiadau i'r cais gwreiddiol. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Swyddog Achos nad oedd mynediad i'r adeilad yn broblem enfawr oherwydd fe ellir cael mynediad iddo heb ddefnyddio manau parcio ac unwaith y byddai'r adeilad yn weithredol anaml y byddai angen ymweld â'r adeilad.

PENDERFYNWYD rhoi caniatâd yn unol â'r argymhelliad.

(2) NP5/50/346E – Newidiadau allanol ac addasu ac ymestyn y balconi presennol, 9 Heol Teras, Aberdyfi. LL35 0LP.

Adroddwyd - Croesawodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir a'r Cadeirydd Ms. Sophie Berry i'r cyfarfod, a oedd ar hyn o bryd yn cynorthwyo'r Adain Cynllunio a Rheoli Tir oherwydd capasiti staff yr adran. Cyflwynodd y Swyddog Achos yr adroddiad a'r cefndir. Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Swyddog Achos y byddai colli cilfach y drws yn gwella mynediad i'r annedd ac na fyddai'n effeithio ar edrychiad yr adeilad. Cadarnhaodd y Swyddog Achos fod yr amod o osod blwch adar yn cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru a oedd yn cefnogi gwella Bioamrywiaeth. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Swyddogion er bod yr eiddo mewn Ardal Gadwraeth nad oedd unrhyw gyfyngiadau ac felly gallai'r ymgeisydd dynnu'r porth ar y drws o dan Hawliau Datblygu a Ganiateir.

PENDERFYNWYD rhoi caniatâd yn unol â'r argymhelliad.

5. Adroddiadau Diweddarau

(1) Hysbysiadau Gorfodi, Hysbysiadau Gorfodi Adeilad Rhestredig a gyflwynwyd o dan bwerau dirprwyedig a Rhestr o Achosion Cydymffurfiaeth – **Er Gwybodaeth**

Yn codi wedi hynny, dywedodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro wrth yr Aelodau nad oedd y rhestr mor gyfredol ag a ragwelwyd oherwydd adnoddau prin ond roedd yn gadarnhaol y byddai'r Aelodau'n cael diweddariadau mwy arwyddocaol maes o law.

NP3/12/ENF191 – Castell Cidwm , Betws Garmon

Roedd Aelod yn pryderu bod swm sylweddol o ddŵr yn mynd ar y ffordd a bod angen mynd i'r afael â'r mater.

NP4/29/ENF10G – Tafarn y Machno, Penmachno.

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod rhestr o geisiadau cynllunio yn cael ei dosbarthu i'r Aelodau, ond y gellid dosbarthu e-bost hefyd i'r aelodau ar geisiadau unigol sy'n berthnasol i'w ward pe bai angen. Dywedodd hefyd mai dim ond yn y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad y cyflwynwyd y rhestr Gorfodaeth.

Darparodd y Swyddog Achos y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar i'r Aelodau a dywedodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro fod y mater yn dal i fynd rhagddo a dywedodd nad oedd unrhyw reswm hyd yma i gymryd camau pellach.

NP5/58/ENF616 – Tir ger Coed y Bachau , Dyffryn Ardudwy .

Rhoddodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro ddiweddariad llafar i'r Aelodau ar y mater.

NP5/65/ENF115A – Tir yn Hengwrt, Llanelltyd.

Rhodddwyd diweddariad llafar i'r aelodau.

NP5/55/ENFL142A – 3 Glandŵr, Bryncrug.

Rhodddwyd diweddariad llafar i'r aelodau. Dywedodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro y byddai Glandŵr a Neuadd Nannau yn cael eu rhoi ar restr flaenoriaeth Grŵp Rheoli Eiddo Gwag Cyngor Gwynedd er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud ynglŷn â'r sefyllfa.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

- (2) Cytundebau 106 – **Er gwybodaeth**

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

- (3) Ceisiadau heb eu penderfynu lle mae mwy na 13 wythnos wedi mynd heibio –
Er Gwybodaeth

NP5/74/496 – Gwastadgoed, Aberangell.

Rhodddwyd diweddariad llafar i'r aelodau.

NP5/57/34C – Marchnad Ffermwyr, Dolgellau.

Byddai'r Rheolwr Cynllunio Dros Dro yn gofyn i'r swyddog achos roi diweddariad.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

| <u>Rhif Eitem / Item No.</u> | <u>Cyfeirnod / Reference No.</u> | <u>Disgrifiad / Description.</u> | <u>Swyddog Achos / Case Officer</u> |
|-------------------------------------|---|--|--|
| 1 | NP5/74/500 | Tynnu llwybr 'boardwalk' bresennol ac ail-wynebu gyda arwyneb agreg newydd, Tir yn Waun Camddwr, Dinas Mawddwy / Removal and surfacing of existing boardwalk path with new aggregate materials, Land at Waun Camddwr, Dinas Mawddwy. | Dafydd Thomas |

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
– Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.**

Dyddiad: 07-Med-2022

Cais Rhif: NP5/74/500

Dyddiad Cofrestru: 16/05/22

Cymuned: Brithdir and Llanfachreth,
Mawddwy

Cyfeirnod Grid: 284616 320498

Swyddog Achos: Mr. Dafydd Thomas

Lleoliad:

Tir yn Waun Camddwr, Dinas Mawddwy

Ymgeisydd:

Mr. E. H. & S. Pugh
Blaen Cowarch
Dinas Mawddwy
Gwynedd
SY20 9JG

Disgrifiad:

Tynnu llwybr 'boardwalk' bresennol ac ail-
wynebu gyda arwyneb agreg newydd

Tynnu a rhoi wyneb ar y llwybr pren presennol gyda deunyddiau agregau newydd.

Crynodeb o'r Argymhelliad:

CYMERADWYO gyda'r amodau a ganlyn;

- Dechrau'r gwaith o fewn 5 mlynedd.
- Cydymffurfio â chynlluniau a dogfennau a gymeradwywyd.
- Cydymffurfio â'r Datganiad Dull cymeradwy a'r Cynllun Cyfnod Adeiladu.
- Gosod arwyddion dros dro.

Rheswm/Rhesymau yr Adroddwyd am y Cais i'r Pwyllgor:

Cais gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Cyflwynir y cais hwn gan Swyddog Prosiect Cynllun Rheolaeth Gynaliadwy (CRhC) Dinas Mawddwy ar ran Mr. E. H & S Pugh, Blaencywarch, Dinas Mawddwy, Gwynedd, SY20 9JG.

Dynodiadau / Cyfyngiadau Tir:

- Cefn Gwlad Agored.
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA): Tyllau Mwn.
- Wedi'i leoli o fewn Gwarchodfa Biosffer Dyfi.
- Ardal o Harddwch Naturiol.

Disgrifiad o'r Safle:

Mae safle'r cais i'r gogledd o Glasgwm a Chwm Cywarch. Mae'r llwybr presennol sy'n destun y cais cynllunio hwn wedi ei leoli ar lethrau Waun Camddwr, sef copa mynydd rhwng copaon Aran Fawddwy a Glasgwm.

Datblygiad Arfaethedig:

Mae'r cynigion datblygu yn ymwneud ag adfer llwybr cerdded presennol i fyny llethrau Waun Camddwr. Mae'r cynigion yn benodol yn cynnwys cael gwared ar hen lwybrau pren a llwybrau pren pydredig a gosod wyneb agregau mâl cynaliadwy newydd yn eu lle.

Mae'r llwybr dan sylw wedi'i leoli o gyfeirnod grid SH842203 i SH854209 a bydd pwyntiau mynediad i'r llwybr yn aros yr un fath. Bydd y llwybr newydd yn dilyn trywydd y llwybr presennol, gyda rhai mân wyriadau, gyda'r rhain yn arwain at lwybr mwy troellog a llai llinellol.

Fel y nodir yn y ddogfen "Manyleb Gwaith" a gyflwynwyd (ac sydd wedi'i chynnwys yn y pecyn o Bapurau Cefndirol), bydd y gwaith yn cael ei wneud dros 15 o adrannau (wedi'u labelu A-O), gyda'r rhannau'n amrywio rhwng 7 metr a 41 metr o hyd. Mae manylion penodol ar bob un o'r adrannau hyn wedi'u cynnwys yn y pecyn o ddogfennau a gyflwynwyd.

Mae pob rhan ac eithrio rhan H (a ddisgrifir isod) yn cynnwys adeiladu haen sylfaen gydag is-sail o ddyfnder 200-250mm o agreg basalt chwarel Minffordd / Arthog (neu debyg). Ar bob un o'r adrannau hyn mae'r deunydd a gloddiwyd gan gynnwys tyweirch i'w ddefnyddio ar y safle a'i dirlunio i ffurfio bwnd bach ar ochr y llwybr.

Lled pob rhan fydd 1.2 metr, bydd adrannau A i D yn cynnwys isgarth o wllân. Mae hyn yn cynnwys cnu defaid i ddyfnder o 400 mm a lled o 1200 mm. Dilynir hyn gyda sylfaen ac arwyneb agregau mwy gyda deunydd mân a fydd yn o leiaf 200mm o ddyfnder. Ni ddylid datguddio unrhyw wllân uwchben wyneb y llwybr. Bydd yr adrannau sy'n weddill (Bar H y manylir arnynt isod) yn cynnwys is-haen geotecstil fel y manylir yn y ddogfen 'Manyleb y Gwaith'.

Mae rhan H o'r gwaith arfaethedig yn cynnwys adeiladu pont bren. Mae hyn yn golygu adeiladu 5 rhan o 3 metr o hyd x 1.2 metr o led o lwybr pren.

I grynhoi, mae cwmpas y gwaith sy'n gysylltiedig â'r gwaith adfer yn cynnwys y gweithgareddau sylfaenol canlynol;

- Awyrgludo deunyddiau i'r safle (agreg, geotecstil, pren) wrth baratoi ar gyfer cyflawni'r contract.
- Awyrgludo peiriannau i'r safle cyn dechrau'r contract;
- Perfformio sgan CAT cyn dechrau unrhyw waith cloddio;

- Gosod llwybr ag arwyneb agregau ar hyd y darn cyfan gan gynnwys draeniad integredig;
- Gosod yr holl ddodrefn angenrheidiol (pontio); a
- Chlirio'r safle o'r holl falurion a deunyddiau / peiriannau adeiladu.

Bydd y gwaith yn cael ei wneud gan contractwr allanol o dan reolaeth a goruchwyliaeth y Rheolwr Contract (Swyddog Prosiect Cynllun Rheoli Cynaliadwy (CRhC) Dinas Mawddwy) a Phennaeth Cadwraeth, Coedwigaeth ac Amaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Polisiâu Cynllunio Perthnasol:

Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031

- Polisi Strategol A: Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Datblygiad Cynaliadwy
- Polisi Strategol C: Strategaeth Datblygu Gofodol.
- Polisi Strategol D: Yr Amgylchedd Naturiol.
- Polisi Strategol I: Twristiaeth
- Polisi Strategol L: Hygyrchedd a Thrafnidiaeth.
- Polisi Datblygu 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol.
- Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Dirwedd.
- Polisi Datblygu 6: Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy.
- Polisi Datblygu 21: Twristiaeth a Hamdden.

Canllawiau Cynllunio Atodol

- CCA 2: Ystyriaethau Datblygu Cyffredinol.
- CCA 7: Tirweddau a Morluniau Eryri.
- CCA 13: Asesiad o Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd.

Polisi/Canllaw Cenedlaethol:

- Polisi Cynllunio Cymru (PCC), Argraffiad 11, Chwefror 2021.
- Cymru'r Dyfodol 2040:
 - Polisi 4: Cefnogi Cymunedau Gwledig;
 - Polisi 9: Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn ac Isadeiledd Gwyrdd

Ymgynghoriadau:

| | |
|--|-------------------------------------|
| Cyngor Cymuned Mawddwy | Cefnogi. |
| Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth | Cefnogi. |
| Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd | Dim gwrthwynebiad, cafwyd sylwadau. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Dim gwrthwynebiad, cafwyd sylwadau. |

| | |
|---|--|
| Parc Cenedlaethol – Cadwraeth | Dim sylwadau wedi dod i law. |
| Parc Cenedlaethol – Partneriaeth Mynediad | Dim sylwadau wedi dod i law. |
| Parc Cenedlaethol – Swyddog Coedwigaeth | Dim sylwadau wedi dod i law. |
| Ecoleg (Templau) | Dim gwrthwynebiad, argymhellion a cheisiadau am wybodaeth ychwanegol wedi eu derbyn. |

Ymateb i Gyhoeddusrwydd:

Rhodddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais ar ffurf rhybudd safle.

Cynhaliodd yr ymgeisydd hefyd 'noson agored' er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais. Cynhaliwyd y 'noson agored' rhwng 4yp a 7yh ar yr 28ain o Orffennaf 2022 yn y Llew Coch, Dinas Mawddwy ac fe'i hysbysebwyd ar ffurf posteri yn Ninas Mawddwy ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd yn agored i holl aelodau'r cyhoedd a mynegodd Cyngor Cymuned Mawddwy eu cefnogaeth i'r cais yn ystod y digwyddiad hwn.

Ar adeg ysgrifennu hwn, mae tri llythyr o gefnogaeth wedi dod i law.

Mae'r Awdurdod wedi derbyn llythyrau o gefnogaeth i'r datblygiad arfaethedig gan Gyngor Mynydda Prydain (BMC), gan fudiad elusennol y Cerddwyr a chan Gyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth.

Asesiad:

1. Egwyddor Datblygu

- 1.1 Mae'n briodol ystyried y cynnig yn erbyn Polisi Strategol A, C, D, I ac L a Pholisïau Datblygu 1, 2, 6 a 21. Caniateir cynigion o'r math hwn dim ond os nad ydynt yn niweidio edrychiad gweledol a chymeriad yr ardal gyfagos neu'r dirwedd ehangach yn sylweddol, neu'n effeithio'n andwyol ar 'Nodweddion Arbennig' y Parc Cenedlaethol ac amwynder y rhai sy'n byw gerllaw. Yn ogystal, bydd cynigion fel hyn ddim ond yn cael eu caniatáu os cânt eu dylunio neu eu haddasu i wella hygyrchedd i bawb, heb gael effaith negyddol ar y dirwedd ehangach.
- 1.2 Y prif bolisïau i'w hystyried yw Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Dirwedd, Polisi Strategol I: Twristiaeth, Polisi Strategol L: Hygyrchedd a Chludiant, Polisi Datblygu 6:

Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy a Pholisi Datblygu 21: Twristiaeth a Hamdden.

- 1.3 Mae Polisi Datblygu 2 yn datgan y dylai graddfa a dyluniad datblygiad newydd, gan gynnwys ei osodiad, tilunio ac integreiddiad barchu a gwarchod cymeriad, rhinweddau a golygfeydd o'r dirwedd.
- 1.4 Mae Polisi Strategol I yn nodi er mwyn creu a chadw twristiaeth gynaliadwy o fewn y Parc Cenedlaethol tra'n gwarchod a gwella'r dirwedd a rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol, bydd yr Awdurdod yn;
 - Cefnogi datblygiad twristiaeth a hamdden sy'n seiliedig ar egwyddorion twristiaeth gynaliadwy;
 - Adnabod a hyrwyddo ardaloedd o'r Parc Cenedlaethol sy'n denu ymwelwyr tra'n sicrhau nad yw 'Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol yn cael eu heffeithio;
 - Hyrwyddo dulliau trafniadaeth cynaliadwy ar gyfer ymwelwyr i'r Parc Cenedlaethol ac oddi yno;
 - Cefnogi'r diwydiant llety drwy annog gwella cynaliadwyedd ac ansawdd y llety presennol i ymwelwyr;
 - Annog cynigion a fydd yn hybu'r cyfle i'r cyhoedd ddeall a mwynhau 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol gan gynnwys cynigion a fydd yn cynorthwyo pobl anabl.
- 1.5 Mae Polisi Strategol L yn nodi pwysigrwydd gwella hygyrchedd. Yn arbennig o berthnasol i'r cais hwn, mae'r polisi'n datgan y bydd datblygiadau'n cael eu cefnogi lle mae gwelliant o ran hygyrchedd i bawb, yn enwedig pobl anabl a lle nad yw amgylchedd naturiol y parc yn cael ei effeithio'n andwyol.
- 1.6 Mae Polisi Datblygu 6 yn rhoi cyfle ar gyfer datblygiad newydd yn ddarostyngedig y cymerir yr hyn a ganlyn i ystyriaeth;
 - i) Dyluniad cynhwysol;
 - i) Gwarchod a gwella'r Dirwedd;
 - ii) Diogelu a gwella bioamrywiaeth;
 - iii) Yr Amgylchedd Hanesyddol;
 - iv) Cynaliadwyedd amgylcheddol;
 - v) Hunaniaeth Ddiwylliannol; a;
 - vi) Datganiad ynni integredig.
- 1.7 Mae Polisi Datblygu 21 yn nodi y bydd atyniadau twristiaeth presennol y Parc Cenedlaethol yn cael eu diogelu a'u gwella trwy fabwysiadu egwyddorion cynaliadwy neu eco-dwristiaeth.
- 1.8 Bydd asesiad o'r polisiâu hyn yn erbyn y cynnig yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

2. Cefndir

- 2.1 Nid oes hanes cynllunio i'r safle ac mae'r safle presennol yn gefn gwlad agored ar lethrau Waun Camddwr.
- 2.2 Mae'r cais hwn yn ceisio caniatâd cynllunio i wneud gwaith adfer i lwybr cerdded presennol i fyny llethrau Waun Camddwr, sef copa mynydd rhwng copa Aran Fawddwy a Glasgwm. Pwrpas y gwaith arfaethedig yw newid y llwybr pren presennol a gosod wyneb agregau mâl cynaliadwy yn ei le. Fel y nodir yn y ddogfen 'Manyleb Gwaith' a gyflwynwyd, mae'r gwaith yn cynnwys gosod llwybr agregau gwastad dros 15 rhan gyda lled o 1.2 metr.

3. Asesiad Cynllunio

- 3.1 Y prif ystyriaethau polisi yw Polisi Datblygu 2, Polisi Datblygu 6, Polisi Datblygu 21 yn ogystal â Pholisi Strategol I a Pholisi Strategol L.

Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Dirwedd.

- 3.2 Mae Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Dirwedd yn rhoi sylw sylweddol i effaith datblygiad newydd ar y dirwedd. Yn benodol, mae'r polisi yn datgan y bydd effeithiau annerbyniol ar y dirwedd yn cael eu gwrthwynebu a rhoddir ystyriaeth arbennig i warchod;
- I. Gwarchodfa Awyr Dywyll Eryri, yn arbennig Ardaloedd Craidd;
 - I. Gwarchodfa Biosffer Dyfi;
 - II. Adran 3 ardaloedd o harddwch naturiol;
 - III. Arfordir heb ei ddatblygu;
 - IV. Panoramâu i'w gweld o olygfannau arwyddocaol.
 - V. Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Sensitif.
- 3.3 Mae'r gwaith arfaethedig i'w wneud ar lwybr presennol ar lethrau Waun Camddwr, sydd wedi ei leoli o fewn Ardal o Harddwch Naturiol, o fewn Gwarchodfa Biosffer Dyfi ac yn darparu panoramâu sy'n weladwy o olygfannau eraill. O'r herwydd, mae sylw ac ystyriaeth ofalus wedi ei roi i'r cynnig ac mae'n briodol ystyried unrhyw effaith negyddol ar y dirwedd o ganlyniad i'r gwaith adfer a ymgwymerwyd.
- 3.4 Bydd y llwybr cerdded newydd yn cael ei leoli ar lethrau Waun Camddwr. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y bydd y llwybr yn dilyn

trywydd y llwybr presennol (gyda rhai gwahaniaethau bach), sy'n golygu na fydd unrhyw rannau eraill o'r dirwedd yn cael eu heffeithio. Bydd hyn felly yn lleihau'r effaith gyffredinol ar lethr y mynydd ac yn lleihau ei effaith weledol gyffredinol ar y dirwedd ehangach.

- 3.5 Mae'r ymgeisydd wedi datgan y bydd y rhan fwyaf o'r llwybr (14 o 15 rhan) yn cael ei ddisodli gan lwybr agregau newydd. Mae hwn wedi'i ddewis am lawer o resymau, a'r rhai sy'n bwysig yw ei allu i ymdoddi i'r dirwedd ac na fydd angen fawr ddim gwaith cynnal a chadw arno yn y dyfodol. Er y gallai'r prosiect hwn gael rhywfaint o effaith fach yn ystod ei gyfnod adeiladu, yn y tymor hir, ystyrir bod y llwybr newydd hwn yn ateb cynaliadwy ac ecogyfeillgar gan na fydd angen ymyrraeth bellach â'r dirwedd. Fel y trafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno nifer o fesurau adfer a lliniaru i sicrhau bod yr effaith ar y dirwedd yn ystod cyfnod adeiladu'r datblygiad arfaethedig yn cael ei gadw i'r lleiafswm.
- 3.6 Bydd y llwybr newydd yn cael ei adeiladu i led o 1.2 metr ac yn cynnwys ffosydd cloddio 0.350/0.400m o ddyfnder. Fel y nodir yn y ddogfen 'Manyleb Gwaith' a gyflwynwyd, cynhelir sgan CAT o bob rhan cyn unrhyw waith cloddio, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddifrod i bibellau, ceblau a chyfleustodau eraill yn y broses hon. Bydd gormodedd o bridd o'r broses gloddio hon yn cael ei ddefnyddio ar y safle a'i dirlunio i ffurfio bwnd bach ar ochr y llwybr. Mae hyn er mwyn cynorthwyo gyda draenio'r safle ac atal unrhyw orlif posibl yn y dyfodol. Bydd unrhyw ddeunyddiau neu weddillion sydd dros ben yn cael eu cludo oddi ar y safle ar ôl cwblhau'r gwaith.
- 3.7 Er mwyn lleihau'r effaith gyffredinol ar y dirwedd o amgylch, mae'r ymgeisydd wedi cynnig cludo'r holl beiriannau, offer a deunyddiau i'r safle ac oddi yno. Er y byddai cam adeiladu'r datblygiad yn naturiol yn cael rhywfaint o effaith weledol fach ar y dirwedd, byddai awyrgludo'r uchod i'r safle hefyd yn atal unrhyw effaith negyddol ar y dirwedd ehangach.
- 3.8 Felly, er yr ystyrir y gallai cyfnod adeiladu'r llwybr cerdded achosi rhywfaint o effaith andwyol ar fwynderau gweledol y dirwedd ehangach am gyfnod byr o amser, mae'r ymgeisydd wedi ymgorffori mesurau adferol i'r prosiect a fydd yn cynorthwyo i liniaru unrhyw effeithiau negyddol, gan gynnwys yn bennaf, awyrgludo peiriannau i'r safle a defnyddio deunyddiau cynaliadwy a fydd yn ymdoddi i'r amgylchedd.
- 3.9 O ystyried yr uchod a manteision ehangach y llwybr newydd i wella hygyrchedd cyffredinol i bawb (yn unol â Pholisi Datblygu 21 a Pholisi Strategol I ac L fel y trafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn), credir y gellir cefnogi'r cynnig.

Polisi Datblygu 6: Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy

3.10 Yn seiliedig ar gyd-destun Polisi Datblygu 6: Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy, mae'n ofynnol i'r datblygiad arfaethedig gymryd i ystyriaeth nifer o ystyriaethau, a'r rhai mwyaf perthnasol i'r datblygiad yw;

- ii. Gwarchod a gwella'r dirwedd;
- iii. Diogelu a gwella bioamrywiaeth;
- iv. Yr Amgylchedd Hanesyddol; a
- v. Chynladwyedd amgylcheddol.

3.11 Mewn perthynas â meini prawf ii, iii a iv a amlinellir uchod, mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno dogfen 'Manyleb Gwaith', sy'n cynnwys datganiad dull (Atodiad B) a Chynllun Cyfnod Adeiladu (Atodiad C) sy'n gosod mesurau i sicrhau y gwarchodir y dirwedd. Mae'r rhain yn cynnwys er enghraifft;

- Ymsefydlu ac ymgyfarwyddo â'r safle ar gyfer contractwyr;
- Peiriannau a deunyddiau yn cael eu cludo mewn hofrennydd i'r safle;
- Rhannau agregau wedi'u hadeiladu gyda draeniad cysylltiedig pan fo angen;
- Peiriannau i fod yn ansymudol pan nad ydynt yn cael eu defnyddio a hambyrddau diferu wedi'u gosod oddi tanynt.
- 'Glwybrau / matiau tir gwlyb' i'w defnyddio ar dir cyfagos os oes angen peiriannau i adael llwybr agregau ac os yw'n debygol y bydd difrod i'r tir;
- Fel y soniwyd eisoes, bydd sgan CAT yn cael ei gynnal cyn dechrau unrhyw waith cloddio.

3.12 Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru, (Argraffiad 11, Chwefror 2021), rhaid i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth. Nid oedd gan Ymgynghorai Ecoleg yr Awdurdod (Temples) unrhyw wrthwynebiad i'r cais, ond darparodd yr argymhellion a ganlyn;

- Bod Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol (GERh) yn dilyn BS 42020:2013 a chanllawiau CIEEM yn cael ei gynnal ar yr ardal waith, mynediad i'r safle a lleoliad tebygol unrhyw gompowndiau safle...;
- Ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y gwaith ar y safle;
- Er mwyn sicrhau bod ardaloedd sydd wedi'u herydu ar hyn o bryd gan draffig troed yn dychwelyd i gyflwr mwy naturiol, gellid gosod arwyddion ar hyd y llwybr newydd i gynghori cerddwyr i aros ar y llwybr cerdded.

3.13 Ymgynghorwyd â Chyfoeth Naturiol Cymru ar y cais cynllunio ac ni chodwyd pryderon yn ymwneud â'r cynnig (cyfeirnod ymateb CAS-189763-P9H8 dyddiedig 10/06/2022) yn nodi eu bod yn ystyried na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn debygol o niweidio nodweddion arbennig SODdGA Tyllau Mwn ac nad oes unrhyw broblemau gyda'r gwaith arfaethedig oherwydd byddent yn cael eu gwneud i fyny'r llethr

a draw oddi wrth y nodwedd ddaearegol o ddiddordeb. Er gwaethaf hyn, ar gais Ymgynghorai Ecoleg yr Awdurdod, mae'r ymgeisydd ers hynny wedi comisiynu Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol o'r safle a fydd yn rhoi crynodeb o'r safle yn ogystal â mesurau lliniaru i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei ddiogelu a'i wella. Mae hyn yn cael ei wneud ym mis Awst 2022 a bydd canfyddiadau'r adroddiad hwn yn cael eu rhannu ag aelodau ym mhwyllgor mis Medi. Ysgrifennir yr adroddiad pwyllgor hwn ar y rhagdybiaeth na fydd unrhyw effeithiau andwyol a nodir yn yr adroddiad. Fodd bynnag, bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu cyflwyno'n llawn i'r pwyllgor, ynghyd ag unrhyw oblygiadau i gasgliad adroddiad y pwyllgor. Ymhellach, pe bai'r Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol yn amlinellu unrhyw fesurau lliniaru ar gyfer gwella a gwarchod bioamrywiaeth, bydd y rhain yn cael eu hamodi fel rhan o unrhyw ganiatâd cynllunio a'u cyflwyno i'r pwyllgor.

- 3.14 Yn yr un modd, ymgynghorwyd hefyd gyda Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd ar y cais cynllunio ac nid oedd yn gwrthwynebu'r cynigion. Dywedwyd bod y safle yn cynnwys cyfres o nodweddion a nodwyd ar y Cofnod Henebion Cenedlaethol (yn cyfeirio'n bennaf at byllau prawf a cheuffyrdd ar wahân (mynedfa i fwynglawdd tanddaearol) ar yr ucheldir, ac o'r herwydd cynghorwyd y dylid cael rhaglen o osgoi a gofal priodol yn ei lle pan fydd y gwaith yn cael ei wneud ac y dylai gwaith fod mor gyfyngedig â phosibl er mwyn sicrhau nad amharir ar unrhyw nodweddion ategol. Fel y crybwyllwyd, mae Atodiad B ac Atodiad C o'r dogfennau 'Manyleb gwaith' (Datganiad Dull a Chynllun y Cyfnod Adeiladu yn ddiweddarach) yn nodi nifer o fesurau lliniaru i sicrhau bod yr effaith ar amgylchoedd y safle yn cael ei gadw i'r lleiaf posibl, ac y mae rhai ohonynt wedi wedi eu rhestru uchod.
- 3.15 Mewn perthynas â chynaliadwyedd amgylcheddol (maen prawf iv) mae'r ymgeisydd wedi dweud bod y gwaith yn cynnwys defnyddio agreg basalt chwarel Minffordd / Arthog (neu debyg). Mae'r ymgeisydd felly nid yn unig yn defnyddio adnoddau lleol ar gyfer y prosiect ond hefyd fel y glynwyd ato yn flaenorol, yn defnyddio deunyddiau sy'n gweddu i'r dirwedd ac a fydd angen dim ond ychydig iawn o waith cynnal a chadw yn y dyfodol, gan arddangos cynaliadwyedd y llwybr newydd.
- 3.16 Yn ogystal, ac yn unol â'r argymhelliad gan ymgynghorai ecolegol yr Awdurdod, er mwyn sicrhau bod ardaloedd sydd wedi'u herydu ar hyn o bryd gan draffig troed yn dychwelyd i gyflwr mwy naturiol, bydd amod yn cael ei weithredu a fydd yn gofyn am osod arwyddion dros dro ar y llwybr newydd yn cyfeirio cerddwyr. Bydd hyn yn cynorthwyo cerddwyr i aros ar y llwybr iawn, gan sicrhau bod y llwybr newydd yn cael ei sathru'n dda, yn ogystal â chynorthwyo gyda'r gwaith o adfer ardaloedd o'r mynydd sydd wedi erydu i gyflwr mwy naturiol unwaith eto.

Polisi Datblygu 21: Twristiaeth a Hamdden.

- 3.17 Yn seiliedig ar Bolisi Datblygu 21: Twristiaeth a Hamdden, mae'n ofynnol i'r datblygiad arfaethedig ystyried y meini prawf canlynol;
- iii. Ni fyddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar 'Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol';
 - iii. Mae'n hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau 'Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol, heb amharu ar fwynhad tawel, profiad ymwelwyr ac ansawdd bywyd y trigolion lleol; ac
 - iv. Mae'r cyfleuster wedi'i ddylunio neu ei addasu i wella hygyrchedd i bawb, yn enwedig pobl anabl.
- 3.18 Ar sail y wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd, ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn gwrthdaro â Pholisi Datblygu Polisi 21, yn enwedig meini prawf iii i iv (fel uchod) a ystyrir yn fwyaf perthnasol i'r cynnig hwn.

Polisi Strategol I: Twristiaeth.

- 3.19 Mae Polisi Strategol I yn amlygu pwysigrwydd twristiaeth gynaliadwy neu eco-dwristiaeth o fewn y Parc Cenedlaethol a'r cydbwysedd rhwng gwarchod a gwella tirwedd y Parc Cenedlaethol a chefnogi twristiaeth. Mae'r polisi'n nodi y dylai'r Awdurdod annog cynigion a fydd yn hybu'r cyfle i'r cyhoedd ddeall a mwynhau 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol gan gynnwys cynigion a fydd yn cynorthwyo pobl anabl.
- 3.20 Mae'r cais cynllunio hwn yn ymwneud â gwaith adfer i lwybr cerdded presennol i fyny llethrau mynydd o fewn y Parc Cenedlaethol. Yn seiliedig ar gyd-destun Polisi Strategol I, dylid annog y datblygiad arfaethedig felly gan y bydd y llwybr newydd yn gwella cyflwr presennol y llwybr yn sylweddol gan wella mwynhad y llwybr i bawb, gwella hygyrchedd a chynorthwyo pobl anabl sydd eisiau cerdded ar hyd y llwybr, tra hefyd, yn bwysig, fe wneir mewn modd sy'n gwarchod ac yn gwella tirwedd y Parc Cenedlaethol. Mae'r ymgeisydd hefyd wedi darparu manylion ar sut y bydd aelodau o'r cyhoedd / cerddwyr yn cael eu diogelu yn y tymor byr, yn enwedig yn ystod y cyfnod adeiladu (manyion wedi'u cynnwys yn y ddogfen 'Manyleb y Gwaith'). Mae hyn yn cynnwys mesurau lliniaru megis gosod arwyddion 'dynion wrth eu gwaith' o amgylch yr ardal waith (pob rhan o'r prosiect), yr ardal waith i'w gorchuddio â thâp rhwystr gweledd uchel a phresenoldeb bancwyr pan fo nifer fawr o gerddwyr yn bresennol. Yn ogystal, mae'n bwysig nodi y bydd y llwybr yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod y cyfnod adeiladu, fodd bynnag, fel yr uchod, bydd arwyddion a thâp rhwystr i'r cyhoedd yn rhoi gwybod am y gwaith sy'n cael ei wneud.

Polisi Strategol L: Hygyrchedd a Thrafnidiaeth.

- 3.21 Mae Polisi Strategol Dd yn amlygu ymrwymiad yr Awdurdod i wella hygyrchedd i bawb ac annog a hyrwyddo teithio llesol.
- 3.22 Yn seiliedig ar gyd-destun Polisi Strategol L, yn enwedig meini prawf iii a vi, dylid annog y datblygiad arfaethedig felly gan ei fod yn gwella hygyrchedd i bawb ac nid yw'n effeithio'n andwyol ar amgylchedd naturiol y Parc.

4. Diwedd glo

- 4.1 Ystyrir y bydd cyfnod adeiladu'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol tymor byr anoche ar y dirwedd, fodd bynnag, gyda'r mesurau lliniaru a amlinellwyd, megis awyrgludo peiriannau, y mesurau lliniaru a amlinellir yn y Datganiad Dull a'r Cynllun Cyfnod Adeiladu, a manteision tymor hir y llwybr newydd, ystyrir y gellir cefnogi'r datblygiad.
- 4.2 Mae'r cais cynllunio'n ymwneud â gwaith adfer llwybr presennol, sy'n golygu nad oes unrhyw lwybrau newydd yn cael eu creu ac felly'n lleihau ei effaith weledol gyffredinol ar y dirwedd ehangach. Mae cynigion yn benodol yn cynnwys cael gwared ar hen lwybrau pren a llwybrau pren pydredig a gosod wyneb agregau mâl cynaliadwy newydd yn eu lle. Bydd hyn yn caniatáu mwy o fwynhad i gerddwyr y llwybr yn y dyfodol tra hefyd, yn bwysig, bydd yn ymdoddi i'r amgylchedd naturiol, gan leihau ei effaith weledol ar yr ardal o'i amgylch.
- 4.3 Yn bwysig, pwrpas y gwaith arfaethedig yw adfer y llwybr cerdded er mwyn gwella hygyrchedd i bawb sy'n ystyriaeth bwysig ar gyfer y cais hwn oherwydd bydd yn darparu a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer mwynhad o fewn y Parc Cenedlaethol wrth wneud hynny mewn modd na fydd yn tynnu oddi ar 'Nodweddion Arbennig' y Parc yn unol â Pholisi Datblygu 2, 6, 21 a Pholisi Strategol I ac L o Gynllun Datblygu Lleol Eryri.
- 4.4 Felly, ar ôl pwyso a mesur, argymhellir caniatáu'r cais yn amodol.

Papurau Cefndirol ym Mhecyn Dogfennau Rhif 1: Ydi / Nac ydi


ARGYMHELLIAD: RHOI caniatâd gyda'r amodau a ganlyn:

- 1) Rhaid dechrau ar y datblygiad a ganiateir drwy hyn cyn pen PUM mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.
- 2) Rhaid cyflawni'r datblygiad a ganiateir drwy hyn yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau cymeradwy a ganlyn:


- Cynllun Lleoliad: AO Waun Camddwr (31/03/2022)
 - Dogfen Manyleb Gwaith V4 (17/08/2022)
 - Dogfen Manyleb y Gwaith V4 (17/08/2022)
 - Manyleb Ffotograff – Dogfen Adfer Llwybr Troed Waun Camddwr (17/08/2022)
 - Dogfen Manyleb Iluniau – Adfer Llwybr Troed Waun Camddwr (17/08/2022)
- 3) Rhaid cyflawni'r datblygiad a ganiateir drwy hyn yn unol â'r 'Datganiad Dull' a gyflwynwyd a'r 'Cynllun Cyfnod Adeiladu' (sy'n gynwysedig yn y ddogfen 'Manyleb Gwaith' V4 a gymeradwywyd). Rhaid cadw at y mesurau a gynhwysir ynddo drwy gydol cyfnod adeiladu'r datblygiad.
- 4) Yn dilyn cwblhau'r datblygiad a ganiateir drwy hyn, bydd arwyddion dros dro yn cael eu gosod ar hyd y llwybr newydd i gynghori cerddwyr i aros ar y llwybr cerdded am gyfnod o 3 mis.

Rhesymau:

- 1) I gydymffurfio ag Adran 91 (fel y'i diwygiwyd) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
- 1) I ddiffinio'r caniatâd ac i osgoi unrhyw amheuaeth.
- 2) I ddiffinio'r caniatâd ac i osgoi unrhyw amheuaeth.
- 3) Er mwyn sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth, yn unol â pholisïau Cynllun Datblygu Lleol Eryri a pharagraff 6.4.5 Polisi Cynllunio Cymru a chadw a gwella mwynderau gweledol yr ardal a'r dirwedd ehangach.



Location Plan - Waun Camddwr.



Graddfa / Scale: 1:31,810

Creawdwr / Creator: Dion Rh. Roberts
 Dyddiad / Date: 5/1/2022



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 OS 100022403
 © Crown copyright and database rights 2022 OS 100022403

Hawlfraint Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
 Copyright Snowdonia National Park.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ~ Snowdonia National Park Authority
 Swyddfaf'r Parc Cenedlaethol ~ National Park Office


01766 770274

Penrhyndeudraeth
 Gwynedd
 LL48 6LF





Appendix A - Work Map / Map or gwaith.



Graddfa / Scale: 1:4,800

Creawdwr / Creator: Dion Rh. Roberts
 Dyddiad / Date: 21/3/2022




Yn Hwffraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 AO 100022403. Rhoddir trwydded ddrymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion arfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Ni chechwch gopïo, is-dwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partion mewn unrhyw ffurf. Yr Arolwg Ordans fydd y cadw'r hawlio trwydded parti i ofodi amodau'r drywydded hon.

© Crown copyright and database rights 2022 OS 100022403. You are granted a non-exclusive, royalty free, revocable licence solely to view the Licensed Data for non-commercial purposes for the period during which Snowdonia National Park Authority makes it available. You are not permitted to copy, sub-license, distribute, sell or otherwise make available the Licensed Data to third parties in any form. Third party rights to enforce the terms of this licence shall be reserved to OS.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ~ Snowdonia National Park Authority
 Swyddfa'r Parc Cenedlaethol ~ National Park Office
 Penrhyndeudraeth
 Gwynedd
 LL48 6LF
 ☎ 01766 770274



Cymalau i'w adeiladu gyda gwlan / Sections constructed with wool



Graddfa / Scale: 1:4,645

Creawdwr / Creator: Dion Rh. Roberts

Dyddiad / Date: 9/8/2022



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 OS 100022403
 © Crown copyright and database rights 2022 OS 100022403


Hawlfraint Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
 Copyright Snowdonia National Park.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ~ Snowdonia National Park Authority
 Swyddfa'r Parc Cenedlaethol ~ National Park Office
 Penrhyndeudraeth

☎ 01766 770274


Gwynedd
 LL48 6LF





SCALE 1:20

NOTE: 250mm wide spoon profiled runoffs to be integrated into bunding at every 10m to alleviate surface water accumulation





Adran A:

- Hyd y rhan 17m
- Lled y rhan 1.2m

Cloddio ffos 1.2m o led x 0.250/0.300m o ddyfnder x 17m o hyd.

Gosod 'geotextile' Math 1 heb ei wehyddu 1.5m o led.

Adeiladu haen sylfaen gyda dyfnder o 200mm o is-sylfaen agreg basalt chwarel Minffordd/Arthog (neu debyg). Dylai arwyneb y llwybr gorffenedig ymgorffori cambr 40mm a bod ychydig uwchben y tir o'i amgylch, dylai hefyd gael ei raddio a'i gywasgu.

Dylai'r defnydd wedi'i gloddio, gan gynnwys gwair, gael ei ddefnyddio ar y safle a'i dirlunio i ffurfio bwnd bach ar ochr y llwybr.





Adran B:

- Hyd y rhan 7m
- Lled y rhan 1.2m

Cloddio ffos 1.2m o led x 0.250/0.300m o ddyfnder x 7m o hyd.

Gosod 'geotextile' Math 1 heb ei wehyddu 1.5m o led.

Adeiladu haen sylfaen gyda dyfnder o 200mm o is-sylfaen agreg basalt chwarel Minffordd/Arthog (neu debyg). Dylai arwyneb y llwybr gorffenedig ymgorffori cambr 40mm a bod ychydig uwchben y tir o'i amgylch, dylai hefyd gael ei raddio a'i gywasgu.

Dylai'r defnydd wedi'i gloddio, gan gynnwys gwair, gael ei ddefnyddio ar y safle a'i dirlunio i ffurfio bwnd bach ar ochr y llwybr.





Adran C:


- Hyd y rhan 17m
- Lled y rhan 1.2m

Cloddio ffos 1.2m o led x 0.250/0.300m o ddyfnder x 7m o hyd.

Gosod 'geotextile' Math 1 heb ei wehyddu 1.5m o led.

Adeiladu haen sylfaen gyda dyfnder o 200mm o is-sylfaen agreg basalt chwarel Minffordd/Arthog (neu debyg). Dylai arwyneb y llwybr gorffenedig ymgorffori cambr 40mm a bod ychydig uwchben y tir o'i amgylch, dylai hefyd gael ei raddio a'i gywasgu.

Dylai'r defnydd wedi'i gloddio, gan gynnwys gwair, gael ei ddefnyddio ar y safle a'i dirlunio i ffurfio bwnd bach ar ochr y llwybr.





Adran D:

- Hyd y rhan 11m
- Lled y rhan 1.2m

Cloddio ffos 1.2m o led x 0.250/0.300m o ddyfnder x 7m o hyd.

Gosod 'geotextile' Math 1 heb ei wehyddu 1.5m o led.

Adeiladu haen sylfaen gyda dyfnder o 200mm o is-sylfaen agreg basalt chwarel Minffordd/Arthog (neu debyg). Dylai arwyneb y llwybr gorffenedig ymgorffori cambr 40mm a bod ychydig uwchben y tir o'i amgylch, dylai hefyd gael ei raddio a'i gywasgu.

Dylai'r defnydd wedi'i gloddio, gan gynnwys gwair, gael ei ddefnyddio ar y safle a'i dirlunio i ffurfio bwnd bach ar ochr y llwybr.





Adran E:


- Hyd y rhan 16m
- Lled y rhan 1.2m

Cloddio ffos 1.2m o led x 0.250/0.300m o ddyfnder x 7m o hyd.

Gosod 'geotextile' Math 1 heb ei wehyddu 1.5m o led.

Adeiladu haen sylfaen gyda dyfnder o 200mm o is-sylfaen agreg basalt chwarel Minffordd/Arthog (neu debyg). Dylai arwyneb y llwybr gorffenedig ymgorffori cambr 40mm a bod ychydig uwchben y tir o'i amgylch, dylai hefyd gael ei raddio a'i gywasgu.

Dylai'r defnydd wedi'i gloddio, gan gynnwys gwair, gael ei ddefnyddio ar y safle a'i dirlunio i ffurfio bwnd bach ar ochr y llwybr.





Adran F:

- Hyd y rhan 32m
- Lled y rhan 1.2m

Cloddio ffos 1.2m o led x 0.250/0.300m o ddyfnder x 7m o hyd.

Gosod 'geotextile' Math 1 heb ei wehyddu 1.5m o led.

Adeiladu haen sylfaen gyda dyfnder o 200mm o is-sylfaen agreg basalt chwarel Minffordd/Arthog (neu debyg). Dylai arwyneb y llwybr gorffenedig ymgorffori cambr 40mm a bod ychydig uwchben y tir o'i amgylch, dylai hefyd gael ei raddio a'i gywasgu.

Dylai'r defnydd wedi'i gloddio, gan gynnwys gwair, gael ei ddefnyddio ar y safle a'i dirlunio i ffurfio bwnd bach ar ochr y llwybr.





Adran G:


- Hyd y rhan 8m
- Lled y rhan 1.2m

Cloddio ffos 1.2m o led x 0.250/0.300m o ddyfnder x 7m o hyd.

Gosod 'geotextile' Math 1 heb ei wehyddu 1.5m o led.

Adeiladu haen sylfaen gyda dyfnder o 200mm o is-sylfaen agreg basalt chwarel Minffordd/Arthog (neu debyg). Dylai arwyneb y llwybr gorffenedig ymgorffori cambr 40mm a bod ychydig uwchben y tir o'i amgylch, dylai hefyd gael ei raddio a'i gywasgu.

Dylai'r defnydd wedi'i gloddio, gan gynnwys gwair, gael ei ddefnyddio ar y safle a'i dirlunio i ffurfio bwnd bach ar ochr y llwybr.



Proiect Cynnalwedd
Cwmnwl Awaethog
MAWDDWY
Safle-Heol
Mawddwy Scheme




Cwmwl Awaethog Cwmwl Awaethog
Cwmwl Awaethog Cwmwl Awaethog
Cwmwl Awaethog Cwmwl Awaethog

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Adran H:

Pont gyda 5 darn o lwybr pren 3m o hyd x 1.2m o led (adeiladu gyda 3 cludwr pren wedi'i drin 225x 100mm a dec gyda decin pren gwrthlithro wedi'i drin 32mm o drwch). Angor bob rhan i'r llawr gyda phileri adran 'H' pren 150 x 150mm wedi'u trin, dylai coesau'r pier gael eu pentyrru tua 800/1200mm i mewn i'r ddaear (yn dibynnu ar gyflwr y ddaear). Dylai'r decin gorffenedig fod tua 300/350mm uwchben lefel y ddaear.





Adran I:

- Hyd y rhan 11m
- Lled y rhan 1.2m

Cloddio ffos 1.2m o led x 0.250/0.300m o ddyfnder x 7m o hyd.

Gosod 'geotextile' Math 1 heb ei wehyddu 1.5m o led.

Adeiladu haen sylfaen gyda dyfnder o 200mm o is-sylfaen agreg basalt chwarel Minffordd/Arthog (neu debyg). Dylai arwyneb y llwybr gorffenedig ymgorffori cambr 40mm a bod ychydig uwchben y tir o'i amgylch, dylai hefyd gael ei raddio a'i gywasgu.

Dylai'r defnydd wedi'i gloddio, gan gynnwys gwair, gael ei ddefnyddio ar y safle a'i dirlunio i ffurfio bwnd bach ar ochr y llwybr.





Adran J:

- Hyd y rhan 41m
- Lled y rhan 1.2m

Cloddio ffos 1.2m o led x 0.250/0.300m o ddyfnder x 7m o hyd.

Gosod 'geotextile' Math 1 heb ei wehyddu 1.5m o led.

Adeiladu haen sylfaen gyda dyfnder o 200mm o is-sylfaen agreg basalt chwarel Minffordd/Arthog (neu debyg). Dylai arwyneb y llwybr gorffenedig ymgorffori cambr 40mm a bod ychydig uwchben y tir o'i amgylch, dylai hefyd gael ei raddio a'i gywasgu.

Dylai'r defnydd wedi'i gloddio, gan gynnwys gwair, gael ei ddefnyddio ar y safle a'i dirlunio i ffurfio bwnd bach ar ochr y llwybr.





Adran K:

- Hyd y rhan 35m
- Lled y rhan 1.2m

Cloddio ffos 1.2m o led x 0.250/0.300m o ddyfnder x 7m o hyd.

Gosod 'geotextile' Math 1 heb ei wehyddu 1.5m o led.

Adeiladu haen sylfaen gyda dyfnder o 200mm o is-sylfaen agreg basalt chwarel Minffordd/Arthog (neu debyg). Dylai arwyneb y llwybr gorffenedig ymgorffori cambr 40mm a bod ychydig uwchben y tir o'i amgylch, dylai hefyd gael ei raddio a'i gywasgu.

Dylai'r defnydd wedi'i gloddio, gan gynnwys gwair, gael ei ddefnyddio ar y safle a'i dirlunio i ffurfio bwnd bach ar ochr y llwybr.





Adran L:

- Hyd y rhan 16m
- Lled y rhan 1.2m

Cloddio ffos 1.2m o led x 0.250/0.300m o ddyfnder x 7m o hyd.

Gosod 'geotextile' Math 1 heb ei wehyddu 1.5m o led.

Adeiladu haen sylfaen gyda dyfnder o 200mm o is-sylfaen agreg basalt chwarel Minffordd/Arthog (neu debyg). Dylai arwyneb y llwybr gorffenedig ymgorffori cambr 40mm a bod ychydig uwchben y tir o'i amgylch, dylai hefyd gael ei raddio a'i gywasgu.

Dylai'r defnydd wedi'i gloddio, gan gynnwys gwair, gael ei ddefnyddio ar y safle a'i dirlunio i ffurfio bwnd bach ar ochr y llwybr.



Adran M:

- Hyd y rhan 8m
- Lled y rhan 1.2m

Cloddio ffos 1.2m o led x 0.250/0.300m o ddyfnder x 7m o hyd.

Gosod 'geotextile' Math 1 heb ei wehyddu 1.5m o led.

Adeiladu haen sylfaen gyda dyfnder o 200mm o is-sylfaen agreg basalt chwarel Minffordd/Arthog (neu debyg). Dylai arwyneb y llwybr gorffenedig ymgorffori cambr 40mm a bod ychydig uwchben y tir o'i amgylch, dylai hefyd gael ei raddio a'i gywasgu.

Dylai'r defnydd wedi'i gloddio, gan gynnwys gwair, gael ei ddefnyddio ar y safle a'i dirlunio i ffurfio bwnd bach ar ochr y llwybr.





Adran N:

- Hyd y rhan 30m
- Lled y rhan 1.2m

Cloddio ffos 1.2m o led x 0.250/0.300m o ddyfnder x 7m o hyd.

Gosod 'geotextile' Math 1 heb ei wehyddu 1.5m o led.

Adeiladu haen sylfaen gyda dyfnder o 200mm o is-sylfaen agreg basalt chwarel Minffordd/Arthog (neu debyg). Dylai arwyneb y llwybr gorffenedig ymgorffori cambr 40mm a bod ychydig uwchben y tir o'i amgylch, dylai hefyd gael ei raddio a'i gywasgu.

Dylai'r defnydd wedi'i gloddio, gan gynnwys gwair, gael ei ddefnyddio ar y safle a'i dirlunio i ffurfio bwnd bach ar ochr y llwybr.





Adran O:


- Hyd y rhan 42m
- Lled y rhan 1.2m

Cloddio ffos 1.2m o led x 0.250/0.300m o ddyfnder x 7m o hyd.

Gosod 'geotextile' Math 1 heb ei wehyddu 1.5m o led.

| 15. | NP4/13/T134C | Adeiladu estyniad ochr a balconi a gosod canopi pren newydd | Drws y Coed, Capel Curig, LL24 0EE | 15/08/22 | Mr Richard Thomas |
| 16. | NP4/16/188B | Gosod insiwleiddiad wal allanol i'r edrychiadau ffrynt, cefn ac ochr | Caldy Villa, Pont y Pant, Dolwyddelan, LL25 0PJ | 16/08/22 | Mr Richard Thomas |
| 17. | NP4/16/8A | Adeiladu estyniad ochr unllawr | 3 Bron Llan, Dolwyddelan, LL25 0NZ | 07/06/22 | Mr Richard Thomas |
| 18. | NP4/26/261B | Cais ôl-weithredol am sied i gael ei ddefnyddio ar gyfer storio offer garddio mawr | Y Felin, Rhydlanfair, Betws y Coed. LL24 0SS | 21/06/22 | Mr. Dafydd Thomas |
| 19. | NP4/26/28B | Gosod 6 pod i'w defnyddio fel unedau gwyliau tymor byr ynghyd a thrac mynedfa a gwaith cysylltiol | Bryn Rhug, Nebo, Llanrwst. LL26 0RT | 30/06/22 | Mr Richard Thomas |

| | | | | | |
|-----|----------------|---|---|----------|-------------------|
| 20. | NP4/29/169B | Gosod rheng o 12 panel haul wedi eu gosod ar y ddaear | Bron-y-Foel, Penmachno. LL24 0YU | 27/07/22 | Mr Richard Thomas |
| 21. | NP5/50/351A | Amnewid ffenestri a drysau allanol | 12 Glandyfi Terrace, Aberdyfi. LL35 0EB | 30/05/22 | Ms. Emma Watkins |
| 22. | NP5/50/589B | Lledu'r fynedfa cerbydau presennol a creu lle parcio | Ael-y-Don, Ffordd Gwelfor, Aberdyfi. LL35 0NY | 25/07/22 | Ms. Emma Watkins |
| 23. | NP5/50/676A | Ail-gladio'r ty presennol, codi deildy ac ail godi gweithdy | Mynydd Bychan, Aberdyfi. LL35 0PF | 26/07/22 | Ms. Sophie Berry |
| 24. | NP5/50/734 | Gosod grisiau allanol, ffenest dormer ar yr edrychiad cefn a ffurfio fflat gwyliau hunanarlwyo o fewn yr adeilad | Cartref, Aberdyfi. LL35 0NR | 28/06/22 | Ms. Sophie Berry |
| 25. | NP5/50/ADL262B | Caniatâd Hysbysebion ar gyfer hysbyseb ymwithiol wedi ei oleuo'n allanol, 2 arwydd ffsgia wedi eu goleuo'n allanol, a 1 hysbyseb i edrychiad ochr yr adeilad gyda goleuadau allanol | 8 Seaview Terrace, Aberdyfi. LL35 0EF | 01/07/22 | Ms. Emma Watkins |
| 26. | NP5/50/LU346D | Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon (Defnydd Arfaethedig) i ffurfio llwyfan wedi'i ei godi a man caled newydd o fewn cwrtil | 9 Terrace Road, Aberdyfi. LL35 0LP | 29/07/22 | Ms. Sophie Berry |
| 27. | NP5/52/92A | Adeiladu twnel garddio | Bryn Hyfryd, Arthog. LL39 1YP | 07/06/22 | Ms. Emma Watkins |
| 28. | NP5/53/497B | Newid defnydd rhan o gae amaethyddol i ffurfio estyniad i gwrtil yr eiddo | Home Lea, 26 Heol Ffrydan, Y Bala. LL23 7RY | 07/06/22 | Mr Aled Lloyd |
| 29. | NP5/53/527B | Adeiladu estyniad ochr unllawr | Doldderwen, 8 Cae Gadlas, Y Bala. LL23 7AT | 15/06/22 | Ms. Emma Watkins |
| 30. | NP5/53/590 | Cais cynllunio ôl-weithredol i gadw sied yn yr ardd ffrynt | 4 Yr Hafan, Bala. LL23 7AU | 02/08/22 | Mr. Dafydd Thomas |
| 31. | NP5/53/591 | Adeiladu estyniad deulawr yn y cefn | Cil y Bryn, 9 Cae Gadlas, Bala. LL23 7AT | 07/07/22 | Ms. Emma Watkins |
| 32. | NP5/53/593 | Adeiladu estyniad blaen a chefn | 21 Cae Gadlas, Bala. LL23 7AT | 13/07/22 | Ms. Sophie Berry |
| 33. | NP5/53/594 | Adeiladu estyniad cefn a ports newydd | Awel Y Llyn, 11 Trem Y Ffridd, Y Bala. LL23 7DG | 14/07/22 | Ms. Emma Watkins |
| 34. | NP5/55/11L | Diwygio Amod Rhif 5 ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/55/11K dyddiedig 05/11/2020 i ail-leoli clwydfan ystlumod | Fferm Cynfal, Brynchrug. LL36 9RB | 30/05/22 | Ms. Emma Watkins |
| 35. | NP5/55/126E | Codi cysgodfa newydd dros bwll biswail presennol | Dolau Gwyn, Brynchrug. LL36 9UL | 11/08/22 | Ms. Sophie Berry |

| | | | | | |
|-----|----------------|---|--|----------|-------------------|
| 36. | NP5/56/145A | Cais cynllunio ôl-weithredol i gadw storfa amaethyddol ffrâm dur | Tir ger Nursery Cottage, Pantperthog, SY20 9AT | 20/06/22 | Mr. Dafydd Thomas |
| 37. | NP5/57/1010A | Gosod ffenestri dormer | Gwel y Garn, 6 Maesbrith, Dolgellau. LL40 1LF | 30/06/22 | Ms. Sophie Berry |
| 38. | NP5/57/34C | Dymchwel rhan o adeiladau'r farchnad da byw presennol ac ailadeiladu adeilad marchnad da byw newydd ynghyd â chorlannu anifeiliaid allanol ychwanegol a gwaith cysylltiedig | Marchnad Ffermwyr, Dolgellau. LL40 1AB | 29/07/22 | Ms. Sophie Berry |
| 39. | NP5/57/867B | Rhyddhau Amodau Rhif 3 (Arolwg ffotograffig o'r adeilad) & 4 (Cynllun draenio dwr budr) o Benderfyniad Apel APP/H9504/A/21/3277282 dyddiedig 17/12/2021 mewn perthynas a cais cynllunio NP5/57/867A | Hen Ysgol Glanwnion, Pont yr Aran, Dolgellau. LL40 1HW | 15/06/22 | Mrs Jane Jones |
| 40. | NP5/57/LB445E | Rhyddhau Amodau Rhif 4 & 7 ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/57/LB445C dyddiedig 12/08/2019 (Panel o waith cerrig a manylion nwyddau dwr glaw) | Fron Arran, South Street, Dolgellau, LL40 1NW | 30/05/22 | Mrs. Iona Roberts |
| 41. | NP5/57/LB445F | Rhyddhau Amodau Rhif 4 & 7 ynghlwm i Ganiatad Adeilad Rhestredig NP5/57/LB445D dyddiedig 12/08/2019 (Panel o waith cerrig a manylion nwyddau dwr glaw) | Fron Arran, South Street, Dolgellau, LL40 1NW | 30/05/22 | Mrs. Iona Roberts |
| 42. | NP5/57/LUT680A | Tystysgrif Defnydd Cyfreithiol (Defnydd Arfaethedig) i adeiladu estyniad unllawr ar y cefn | Pant Teg, Y Domen Fawr, Dolgellau. LL40 1LT | 13/06/22 | Ms. Emma Watkins |
| 43. | NP5/58/641A | Cadw newid defnydd o dy (Dosbarth Defnydd C3) yn uned gwyliau sengl a trosi'r gweithdy ynghlwm yn gegin yn cynnwys ffenestri to newydd | Bennar Fawr, Dyffryn Ardudwy. LL44 2RX | 27/05/22 | Mr Aled Lloyd |
| 44. | NP5/58/649 | Codi balcony llawr cyntaf ar flaen y tŷ | Llinon, Ffordd Glan-Mor, Talybont. LL43 2AR | 05/07/22 | Mr Aled Lloyd |
| 45. | NP5/61/434B | Dymchwel y twr ymarfer presennol ac adeiladu twr ymarfer ffram ddr newydd gyda golau cysylltiedig | Gorsaf Dân, Harlech. LL46 2UE | 09/08/22 | Mr Aled Lloyd |

| | | | | | |
|-----|---------------|---|--|----------|------------------|
| 46. | NP5/61/68G | Newid defnydd o gartref gofal rhestredig (C2) i ddau dy (C3) ynghyd a newidiadau allanol bychain a dymchwel estyniad to gwastad | Plas Amherst, Harlech. LL46 2RA | 30/06/22 | Mr Aled Lloyd |
| 47. | NP5/61/LB446B | Cais i ruddhau amod 7a (Manylion y sustem dancio) a 7b (Manylion gosodiadau cegin / ystafell ymolchi) o Ganiatad Adeilad Rhestredig NP5/61/LB446A dyddiedig 28/09/2018 | Pencerrig Pella, Ffordd Uchaf, Harlech. LL46 2SS | 20/06/22 | Mr Aled Lloyd |
| 48. | NP5/61/LB446C | Application to discharge Condition 9 (include a photographic survey in accordance with Gwynedd Archaeological Planning Service Requirement) of NP5/61/LB446A dated 29/09/2018 | Pencerrig Pella, Ffordd Uchaf, Harlech. LL46 2SS | 09/06/22 | Mr Aled Lloyd |
| 49. | NP5/66/162B | Adeiladu sied amaethyddol | Fron Oleu, Fron Hill, Llanfair. LL46 2TD | 30/05/22 | Mr Aled Lloyd |
| 50. | NP5/66/229A | Codi estyniad yn y cefn a thynnu simdde | 3 Llwyn y Gadair, Llanfair. LL46 2RS | 06/07/22 | Mr Aled Lloyd |
| 51. | NP5/67/266A | Adeiladu estyniad gwydr ar flaen yr eiddo | Ty Trydan, Sw-n-yr-Afon, Abergynolwyn. LL36 9UU | 15/06/22 | Ms. Sophie Berry |
| 52. | NP5/67/337A | Rhyddhau Amodau Rhif 3 (Cynllun tirlunio a gwelliannau bioamrywiaeth) & 5 (Llechi to) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/67/337 dyddiedig 30/11/2021 | Tir ynghlwm i 1 Tan y Fedw, Abergynolwyn. LL36 9YUMs Emma Watkins | 08/07/22 | Ms. Emma Watkins |
| 53. | NP5/67/340 | Gosod dwy ffenestr to | Crud yr Awel, Abergynolwyn. LL36 9UT | 30/05/22 | Ms. Emma Watkins |
| 54. | NP5/70/163 | Gosod mast telathrebu lattice 40m o uchder gydag antenau cysylltiedig, dysglau, gorchudd rhag y tywydd a chabinetau offer o fewn compownd wedi'i ffensio. Mewnlenwi ardal rhwng trac coedwigaeth a chyfansoddyn gyda cherrig. | Craig yr Allt Ddu, Cwm Hirnant, Rhosygwaliau. | 21/06/22 | Mrs Jane Jones |
| 55. | NP5/71/477C | Adeiladu storfa ffram pren | Gwersyll Yr Urdd, Glanllyn, Llanuwchllyn. LL23 7ST | 13/07/22 | Ms. Sophie Berry |
| 56. | NP5/72/134M | Rhyddhau Amod Rhif 3 (llechi to) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/72/13M dyddiedig 17/03/2021 | Llain 2, Maes Gwyn, Rhyduchaf. | 08/07/22 | Ms. Emma Watkins |

| | | | | | |
|-----|---------------|--|---|----------|------------------|
| 57. | NP5/72/134N | Rhyddhau Amod Rhif 4 (Panel gwaith cerrig) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/72/134L dyddiedig 17/03/2021 | Llain 2, Maes Gwyn, Rhyduchaf. | 22/07/22 | Ms. Emma Watkins |
| 58. | NP5/72/143M | Codi dosbarth tu allan pren gyda gorchydd estyniadwy, dec pren newydd, llwybrau a wal gynnal | Mary Jones World, Eglwys Beuno Sant, Llanycil. LL23 7YF | 18/07/22 | Ms. Sophie Berry |
| 59. | NP5/72/40F | Codi dau adeilad amaethyddol (To dros bwll biswail presenol a adeilad porthi) | Tyddyn Du, Parc. LL23 7YS | 20/07/22 | Mrs Jane Jones |
| 60. | NP5/73/141A | Adeiladu estyniad unllawr a codi garej ar wahân | Cae Pabi, Gellilydan. LL41 4DY | 09/08/22 | Mr Aled Lloyd |
| 61. | NP5/73/197N | Cais ol-weithredol i gadw man storio, pabell fawr, lloches ysmegu, canopi gardd gwrw, tu allan i adeilad arlwyo a phont. Ailosod y tanc LPG. Codi estyniad i fwyty presennol, newidiadau i wal perimedr a chodi porth. | Bryn Arms, Gellilydan. LL41 4EN | 10/08/22 | Mr Aled Lloyd |
| 62. | NP5/73/418B | Newid defnydd garej, gweithdy ag ystafell therapi yn anecs un ystafell wely i berson anabl. | Ty Nant, Gellilydan. LL41 4RD | 27/06/22 | Mr Aled Lloyd |
| 63. | NP5/73/436 | Codi garej/storfa gyda stiwdio, storfa goed ar wahan a gosod uned trin carthion. | Pen y Bryn Uchaf, Tan-y-Bwlch. LL41 3AQ | 02/08/22 | Mr Aled Lloyd |
| 64. | NP5/74/496 | Trosi adeilad amaethyddol traddodiadol yn annedd menter wledig a llety gwyliau, a gwaith cysylltiedig | Gwastadgoed, Aberangell. SY20 9NF | 28/06/22 | Ms. Sophie Berry |
| 65. | NP5/77/31K | Adeiladu sied ardd a storfa goed | Caerffynnon Hall, Talsarnau. LL47 6TA | 13/07/22 | Mr Aled Lloyd |
| 66. | NP5/77/336D | Rhyddhau Amod Rhif 16 (rhaglen o waith archeolegol) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/77/336B dyddiedig 24/09/2021. | Tir yn Cilfor, Llandecwyn. LL47 6YH | 20/06/22 | Mr Aled Lloyd |
| 67. | NP5/77/336E | Rhyddhau rhan o amod Rhif 5 (Datganiad Dull Ymlusgiaid) a 8 (Penodi Clerc Gwaith Ecolegol) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/77/336B dyddiedig 24/09/2021. | Tir yn Cilfor, Llandecwyn. LL47 6YH | 29/06/22 | Mr Aled Lloyd |
| 68. | NP5/77/LB230A | Caniatad Adeilad Rhestredig i ddymchwel penty | Adeilad buarth, Glyn Cywarch, Talsarnau. LL47 6TE | 27/05/22 | Mr Aled Lloyd |

| | | | | | |
|-----|-------------|--|---|----------|-------------------|
| 69. | NP5/78/45D | Rhyddhau Amod Rhif 4 (Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/78/45C dyddiedig 09/11/2021 | Bwthyn Jerusalem, Trawsfynydd. LL41 4YE | 31/05/22 | Ms. Emma Watkins |
| 70. | NP5/78/478A | Dymchwel y strwythur unllawr presennol a'r ystafell haul ac adeiladu estyniad unllawr. Ehangu maint ffenestr to ar ddrychiad Gogledd Orllewin y prif dŷ | Ty'n-y-Bryn, Trawsfynydd. LL41 4UU | 17/06/22 | Ms. Emma Watkins |
| 71. | NP5/78/478B | Rhyddhau Amod Rhif 3 (Deunydd to) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/78/478A dyddiedig 17/06/2022 | Ty'n-y-Bryn, Trawsfynydd. LL41 4UU | 22/07/22 | Ms. Emma Watkins |
| 72. | NP5/78/519B | Cais ol-weithredol i addasu cynlluniau a ganiateir o dan NP5/78/519A ar gyfer newid defnydd llety'r Rheolwr (Dosbarth Defnydd C3) yn gaffi / bar (Dosbarth Defnydd A3), gan gynnwys addasiadau allanol i'r fynedfa a'r decin, gosod fflw, goleuadau allanol ac ardal phatio newydd a defnyddio Cabin 97 fel llety'r Rheolwr (meddianaeth 12 mis) | Trawsfynydd Holiday Village, Bronaber. LL41 4YB | 28/06/22 | Mr. Dafydd Thomas |

Ceisiadau wedi ei gwrthod

| Rhif y Cais | Bwriad | Lleoliad | Rheswm Gwrthod | Swyddog Achos |
|-------------|------------------------------------|---|--|------------------|
| NP5/50/562P | Cais ôl-weithredol i ymestyn decin | Chalet 62, Plas Panteidal, Aberdyfi. LL35 0RF | 19/07/22 Oherwydd ei faint, ei ffurf a'i leoliad mae'r ddec yn cael effaith andwyol ar fwynderau preswyl yr eiddo cyfagos trwy edrych drosodd a cholli preifatrwydd ac felly'n gwrthdaro â Pholisi Datblygu 1 Cynllun Datblygu Lleol Eryri. | Ms. Sophie Berry |

| | | | | |
|--------------|---|--|--|------------------|
| | | | Nid oes unrhyw welliant bioamrywiaeth wedi'i gynnig fel rhan o'r cais ac felly mae'n gwrthdaro â Pholisi Strategol D a'r rhwymedigaeth i ymgorffori gwella bioamrywiaeth fel sy'n ofynnol ym mharagraff 6.4.5 Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwefror 2021). | |
| NP5/50/LU739 | Cais am Dystysgrif Defnydd Cyfreithlon (Defnydd Arfaethedig) i amnewid y garafan breswyl presennol gyda charafan arall | The Beech Trees, Panteidal, Aberdyfi. LL35 0RF | 29/07/22 Nid yw'r ymgeisydd wedi darparu tystiolaeth ddigonol i ddangos y byddai'r datblygiad yn gyfreithlon o dan A.192 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref gan na ddangoswyd y byddai'r uned newydd arfaethedig yn disgyn o fewn y diffiniad o garafán fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Safleoedd carafannau 1968. | Ms. Sophie Berry |
| NP5/54/8C | Codi adeilad i storio peirianau a gwaith cysylltiol | Gellfachreth, Llanfachreth. LL40 2EH | 07/07/22 Oherwydd ei leoliad, dyluniad, deunyddiau, graddfa a màs byddai'r adeilad arfaethedig yn ymddangos fel ymwthiad digroeso a digydymdeimlad o fewn cefn gwlad agored a chwrtill yr annedd cysylltiedig ac yn methu ag integreiddio gyda chymeriad ac edrychiad yr annedd, safle neu ardal ehangach. Felly byddai'n gwrthdaro â Pholisiau Datblygu 1, 2 a 6 a Pholisi Strategol C Cynllun Datblygu Lleol Eryri. | Ms. Sophie Berry |
| NP5/62/63H | Cais amlinellol i ddymchwel dau adeilad allanol a gosod 10 pod glampio ynghyd a chreu llecynnau caled i'w ddefnyddio fel llefydd parcio a defnyddio'r adeilad sydd ar ôl fel bloc | Cynelau Cwn, Pentre Gwynfryn, Llanbedr. LL45 2PB | 29/06/22 Oherwydd fod y cais hwn yn cynnig unedau llety newydd yng nghefn gwlad agored, nid yw'r cynnig yn bodloni gofyniad Polisi Datblygu 22. | Mr Aled Lloyd |

| | | | | |
|---------------|---|---|---|------------------|
| | gwasanaethu | | <p>Nid yw'r bwriad yn rhan o gynllun arallgyfeirio amaethyddol nac yn atodol i atyniad twristiaeth newydd neu bresennol ac o'r herwydd mae'n groes i Bolisi Datblygu 29 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri (2016-2031) a Chanllawiau Cynllunio Atodol 8 – Llety Ymwelwyr.</p> <p>Yn sgil y bwriad i gyflwyno datblygiad newydd ar raddfa fawr o fewn cefn gwlad agored , ystyrir ei fod yn ffurf anaddas o ddatblygiad sy'n methu â gwella neu warchod 'Nodweddion Arbennig' y Parc Cenedlaethol a bydd yn cael effaith andwyol. ar gymeriad y dirwedd ehangach. Felly mae'r cynnig yn gwrthdaro â Pholisi Datblygu 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol a Pholisi Datblygu 2: Datblygu a'r Dirwedd.</p> | |
| NP5/64/LU113A | Tystysgrif Defnydd Cyfreithiol (Defnydd Presennol) i ddefnyddio adeilad fel anecs | Ty'r Gawen, Llanegryn. LL36 9UG | 25/07/22 Nid yw'r ymgeisydd wedi darparu tystiolaeth ddigonol i ddangos fod y defnydd yn gyfreithlon o dan A.191 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 trwy gael ei eithrio rhag camau gorfodaeth gan na ddangoswyd bod yr ysgubor wedi ei ddefnyddio fel anecs ar gyfer yr angen. cyfnod parhaus | Ms. Sophie Berry |
| NP5/78/47N | Gosod 'Portacabin' i'w ddefnyddio fel cyfleuster arlwyo | Prysor Filling Station, Trawsfynydd. LL41 4TW | 01/07/22 Mae'r cyfleuster arlwyo caban symudol arfaethedig wedi'i leoli yng nghefn gwlad agored heb unrhyw gyfiawnhad, yn groes i hierarchaeth datblygu yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r cynnig felly yn groes i Bolisi Strategol C (Strategaeth Datblygu Gofodol) o Gynllun Datblygu Lleol Eryri (Chwefror 2019). | Ms. Emma Watkins |

| | | | | |
|--|--|--|--|--|
| | | | <p>Er gwaethaf y gwrthwynebiad mewn egwyddor i'r cyfleuster arlwyo caban symudol arfaethedig, oherwydd ei faint, lleoliad, dyluniad ac edrychiad mae'n arwain at ddatblygiad nid yw'n adlewyrchu safon dylunio cynaliadwy da ac nad yw'n gwella edrychiad na rhinweddau arbennig y rhan hon. o'r Parc Cenedlaethol. Mae'r cynnig felly yn groes i Bolisi Strategol A (Dibenion y Parc Cenedlaethol a Datblygu Cynaliadwy), Polisi Datblygu 1 (Egwyddorion Datblygu Cyffredinol) a Pholisi Datblygu 6 (Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy) Cynllun Datblygu Lleol Eryri (Chwefror 2019).</p> <p>Nid oes digon o wybodaeth wedi'i darparu i ddangos na fydd y datblygiad yn niweidiol i ddiogelwch priffyrdd, yn enwedig o ran yr effeithiau posibl ar gefnffordd yr A470. Mae'r cynnig felly yn groes i Bolisi Datblygu 1 (Egwyddorion Datblygu Cyffredinol) Cynllun Datblygu Lleol Eryri (Chwefror 2019) a fabwysiadwyd.</p> <p>Nid oes unrhyw fesurau gwella bioamrywiaeth wedi'u cynnwys gyda'r cynnig. Mae'r cynnig felly'n gwrthdaro â Pholisi Strategol D o Gynllun Datblygu Lleol Eryri mabwysiedig a pharagraff 6.4.5 Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwefror 2021)</p> | |
|--|--|--|--|--|



Penderfyniad ar yr Apêl

Gwrandawriad a gynhaliwyd ar 10/05/22

Ymweliad â safle a wnaed ar 11/05/22

gan **C MacFarlane BSc(Hons) MSc MRTPI**

Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru

Dyddiad: 21/07/2022

Appeal Decision

Hearing held on 10/05/22

Site visit made on 11/05/22

by **C MacFarlane BSc(Hons) MSc MRTPI**

an Inspector appointed by the Welsh Ministers

Date:21/07/2022

Cyf yr apêl: APP/H9504/A/21/3281431

Cyfeiriad y safle: Maes Gwersylla Nyth Robin, Aberdyfi LL35 0RG

Mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo'r awdurdod i benderfynu ar yr apêl hon i mi fel yr Arolygydd penodedig.

- Gwneir yr apêl o dan adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.
- Gwneir yr apêl gan Mr a Mrs Grant Stott yn erbyn y penderfyniad gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- Y datblygiad a gynigir yw codi annedd menter wledig â dwy ystafell wely mewn maes gweryslla sy'n bodoli.

Penderfyniad

1. Gwrthodir yr apêl.

Mater Gweithdrefnol

2. Mae enw'r apelydd yn wahanol rhwng y ffurflen gais a'r ffurflen apelio. Yn dilyn cadarnhad, mae'r apêl wedi mynd rhagddi o dan yr enwau a roddwyd ar y ffurflen gais, a ddefnyddir yn y prif bennawd uchod.

Prif Fater

3. Y prif fater yw p'un a yw'r cynnig yn bodloni gofynion polisi cynllunio lleol a chenedlaethol mewn perthynas â darparu annedd menter wledig.

Rhesymau

4. Mae safle'r apêl yn llain o dir o fewn Maes Gwersylla Nyth Robin, yn agos at y fynedfa. Mae'r safle yn ffinio â sied fawr a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r busnes ac mae'n cynnwys derbynfa'r maes gweryslla presennol ac adeilad swyddfa. Byddai carafân awdurdodedig a ddefnyddir ar hyn o bryd gan yr apelyddion fel llety byw yn cael ei symud oddi yno er mwyn darparu ar gyfer yr annedd a gynigir. Mae'r maes gweryslla wedi'i leoli mewn cefn gwlad agored, fel y'i diffinnir yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 (CDLI), a cheir mynediad iddo ar hyd trac o briffordd yr A493.

5. Yn ei hysbysiad penderfyniad, mae'r Awdurdod yn cyfeirio at Bolisiau Strategol A a C, a Pholisi Datblygu 1. Mae Polisi Datblygu 1 yn nodi rhestr o ofynion cyffredinol ar gyfer pob datblygiad, ac eglurwyd yn y gwrandawriad y gwneir y cyfeiriad hwn mewn perthynas â maen prawf i. Fodd bynnag, mae'r maen prawf hwn yn ymwneud â materion cymeriad a chapasiti, nad ydynt wedi'u dadlau'n sylweddol gan yr Awdurdod ac na chyfeiriwyd atynt yn y rheswm dros wrthod. Ar sail y wybodaeth sydd ger fy mron, ystyriaif mai polisiau perthnasol y CDLI yn yr achos hwn yw Polisiau Strategol A a C.
6. Mae Polisi Strategol A yn darparu fframwaith trosfwaol ar gyfer sicrhau datblygu cynaliadwy o fewn y Parc Cenedlaethol. Cefnogir hyn gan hierarchaeth o ddatblygiadau a nodir ym Mholisi Strategol C, sy'n cyfyngu datblygu mewn cefn gwlad agored i nifer cyfyngedig o eithriadau, gan gynnwys tai yn ymwneud ag angen hanfodol i fyw yng nghefn gwlad yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol. Wrth gymhwyso'r maen prawf hwn, mae'r Awdurdod wedi asesu'r cynnig yn erbyn Polisi Cynllunio Cymru 11 (PCC) a Nodyn Cyngor Technegol 6 'Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy' (TAN 6), gan gyfeirio'n benodol at y pum prawf cyfiawnhad ar gyfer anheddau mentrau gwledig a nodir yn TAN 6. Ceir canllawiau pellach ar gymhwyso'r profion yn y Canllawiau Ymarfer ategol 'Anheddau Mentrau Gwledig'.
7. O ran y prawf swyddogaethol, mae TAN 6 yn nodi ei fod yn angenrheidiol "i ddarganfod a yw'n hanfodol i un neu fwy o weithwyr fod wrth law bron bob amser er mwyn i'r fenter weithredu'n briodol. Dylai ymwneud â sefyllfaoedd annisgwyl allai godi sy'n golygu bod angen gweithwyr wrth law i ddelio â nhw y tu hwnt i oriau gwaith arferol y fenter benodol". Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ger fy mron, mae'n ymddangos bod y sefyllfaoedd annisgwyl a allai godi yn ymwneud â materion diogeledd, iechyd a diogelwch, a rheoli a chynnal a chadw'r maes gwersylla.
8. Mae pryderon diogeledd yn codi'n rhannol o'r angen i atal ymwelwyr nad ydynt wedi archebu a thalu ymlaen llaw rhag defnyddio'r maes gwersylla a'r cyfleusterau. Nodaf fod gât y fynedfa yn agored bob amser er mwyn galluogi mynediad hawdd i westeion; fodd bynnag, er sylwadau'r apelyddion ynghylch dibynadwyedd posibl y rhyngwyd a'r cyflenwad pŵer, nid oes llawer ger fy mron i ddangos bod dulliau o gyfyngu mynediad i westeion sydd wedi archebu ymlaen llaw yn unig, a chasglu taliadau ymlaen llaw neu ar ôl cyrraedd, wedi'u hystyried yn llawn ac ni fyddai modd eu cyflawni. Nid chofnodwyd unrhyw achosion blaenorol o ddwyn, neu ymgais i ddwyn, o'r maes gwersylla. Er ei bod yn bosibl bod presenoldeb yr apelyddion ar y safle ar hyn o bryd yn gweithredu fel ataliad, nid wyf o'r farn bod pryderon cyffredinol o'r fath yn ddigon i gyfiawnhau annedd barhaol ar y safle, yn enwedig o ystyried y diffyg tystiolaeth i ddangos y byddai unrhyw ddigwyddiadau yn arwain at y fath golled o ran gwerth neu amharu ar weithgareddau'r maes gwersylla fel eu bod yn cynrychioli bygythiad i hyfywedd a bodolaeth y busnes, neu mai annedd yw'r cyfrwng lleiaf sydd ei angen i atal digwyddiadau o'r fath.
9. O ystyried graddfa fach y busnes gwersylla, byddai disgwyl i nifer yr anafiadau a damweiniau fod yr un mor fach, yn enwedig wrth ystyried dim ond y rhai a allai ddigwydd y tu allan i oriau gwaith arferol y busnes, ac adlewyrchir hyn yn y cofnodion digwyddiadau a gyflwynwyd. Mae'r cofnodion digwyddiadau hefyd yn dangos bod y rhan fwyaf o ddamweiniau ac anafiadau yn gymharol fach eu natur ac felly mae'n rhesymol y gallai'r ymwelwyr eu hunain ymdrin â llawer ohonynt. Rwy'n cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch y risg o dân, o ystyried lleoliad coediog y maes gwersylla a'r defnydd o bydewau tân, barbeciws a llosgwyr coed. Fodd bynnag, mae pydewau tân a barbeciws yn eitemau dewisol ac ni welaf unrhyw reswm pam na ellid cyfyngu ar eu defnydd er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw risg. O ran llosgwyr coed mewn nifer fach o unedau, nid oes llawer i ddangos na ellid darparu canllawiau digonol ar eu gweithredu, naill ai'n ysgrifenedig neu dros y ffôn yn ystod cyfnodau y tu allan i oriau. Rwyf hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y

camau ataliol a gymerir gan yr apelyddion wrth gynnal gwiriadau gyda'r nos, fodd bynnag, mae hyn yn weithgarwch rheolaidd a gynllunnir a allai ddigwydd hyd yn oed pe bai'r apelyddion yn byw oddi ar y safle.

10. Gwnaed cyfeiriadau at y posibilrwydd y gallai digwyddiadau difrifol ac argyfyngau meddygol ddigwydd. Er y gall digwyddiadau eithafol o'r fath fod yn bosibl yn ddamcaniaethol, nid oes llawer i ddangos y tebygolrwydd y byddant yn digwydd, yn enwedig o ystyried y nifer cymharol fach o ymwelwyr y gellir eu lletya ar y safle, neu fod angen annedd barhaol i osgoi neu ymateb i senarios o'r fath.
11. Cyfeirir at dasgau amrywiol mewn perthynas â rheoli a chynnal a chadw'r busnes, megis glanhau, goruchwyllo'r maes gwersylla, goruchwyllo'r bobl sy'n cyrraedd a rhoi cyfarwyddyd ar gyfleusterau. Er y gellir cyflawni hyn yn ystod y diwrnod gwaith hir, mae'r rhain yn dasgau arferol sy'n digwydd yn ddyddiol yn bennaf ac nid ydynt yn sefyllfaoedd annisgwyl. Er efallai na fydd modd rhagweld yn gywir yr amser y bydd ymwelwyr yn cyrraedd i gofrestru ar y safle, nid oes llawer ger fy mron i awgrymu na ellid gwneud trefniadau ymlaen llaw i ddarparu ar gyfer y nifer cymharol fach o bobl sydd wedi archebu lle ymlaen llaw ac sy'n cyrraedd y tu allan i oriau.
12. Er bod mynd i'r afael mewn modd amserol â materion cynnal a chadw, er enghraifft methiannau pŵer, toiledau wedi'u blocio, coed/canghennau wedi cwmpo a digwyddiadau eraill o'r fath, yn bwysig i sicrhau cysur a diogelwch gwesteion, nid wyf wedi fy argyhoeddi bod y rhain yn faterion o frys digonol o ran hyfywedd y busnes fel bod angen gweithredu ar unwaith, a gellid ond ei ddarparu wrth fyw ar y safle. Er y byddai annedd barhaol ar y safle yn ddiamau yn fwy cyfleus i'r apelyddion, wrth osgoi unrhyw amser teithio, nid oes dadl argyhoeddiadol wedi'i chyflwyno i esbonio pam na ellid ymateb i ddigwyddiadau o'r fath tra'n byw oddi ar y safle, er rhyw bellter rhesymol o'r maes gwersylla. Yn ogystal, mae TAN 6 paragraff 4.3.1 yn glir y bydd unrhyw ofyniad hanfodol i fyw ar y safle yn dibynnu ar anghenion y fenter ac nid ar ddewis nac amgylchiadau personol unrhyw unigolion. Felly, nid yw'r materion ymarferol a nodwyd gan yr apelyddion o ran byw mewn man arall a theithio bob diwrnod i'r safle yn cael llawer o bwys wrth i mi benderfynu ar yr apêl hon. Sylwaf y gellir cysylltu â'r apelyddion dros y ffôn er mwyn i westeion roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau y tu allan i oriau, ac nid oes llawer i awgrymu na allai'r trefniant hwn barhau pe bai'r apelyddion yn byw oddi ar y safle. Ar ben hynny, mae'r cofnodion digwyddiadau yn dangos, er bod digwyddiadau cynnal a chadw yn codi'n weddol reolaidd, maent yn gymharol fach o ran eu nifer ar draws y flwyddyn. Yn yr un modd, mae nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod yn gyfyngedig o ran eu nifer, ac ymdriniwyd â'r rhan fwyaf o broblemau swm yn ystod y gwiriad arferol o'r safle a wnaed gan yr apelyddion gyda'r nos.
13. Rwyf wedi ystyried y pryderon a godwyd ynghylch y posibilrwydd o gynnydd yn nifer y digwyddiadau a'u difrifoldeb, a hefyd y byddai'r maes gwersylla yn llai deniadol i ddarparu westeion yn absenoldeb presenoldeb amser llawn ar y safle gan yr apelyddion a'r effaith y gallai hyn ei chael ar hyfywedd y busnes. Fodd bynnag, nid oes llawer ger fy mron i gadarnhau pryderon damcaniaethol o'r fath, ac ynghyd â natur y llety a ddarperir lle y gellir disgwyl yn rhesymol i westeion fod yn hunanddibynnol i raddau helaeth, nid wyf wedi fy narbwyllo bod hyn yn ddigon i gyfiawnhau'r annedd a gynigir. Mae sylwadau sy'n ymwneud ag yswiriant a phremiymau'r un mor gyffredinol eu natur, ac er y gallai fod goblygiadau yn hyn o beth, ni ddarparwyd gwybodaeth am debygolrwydd a graddfa unrhyw effaith negyddol ar y busnes, ac nid yw'r mater hwn ychwaith yn gyfystyr ag angen swyddogaethol.
14. Rwyf hefyd wedi ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gan berchennog blaenorol y maes gwersylla a'r anawsterau a gafwyd wrth fyw oddi ar y safle. Fodd bynnag, mae'n amlwg y

cafodd y busnes ei redeg ar sail anffurfiol iawn a gyda llai o oruchwyliaeth bryd hynny, o gymharu â dull yr apelyddion, ac felly nid yw hyn yn ddangosydd dibynadwy o'r tebygolrwydd y bydd yr un anawsterau yn digwydd yn y dyfodol. Beth bynnag, mae mwyafrif y problemau a amlygwyd gan y perchennog blaenorol yn debyg o ran eu natur i'r rhai a nodwyd gan yr apelyddion, ac rwyf wedi mynd i'r afael â'r rhain eisoes.

15. Gan dynnu ynghyd y cyfan o'r uchod, deufaf i'r casgliad nad oes cyfiawnhad digonol wedi'i ddarparu i ddangos bod annedd barhaol ar y safle yn hanfodol i sicrhau gweithrediad parhaus y busnes, ac felly ni fodlonwyd y prawf swyddogaethol
16. Mae TAN 6 paragraff 4.9.1 yn datgan, "Os canfyddir gofyniad swyddogaethol, bydd rhaid ystyried wedyn faint o weithwyr y mae eu hangen i'w ddiwallu." Yn seiliedig ar yr amserlenni gwaith dyddiol a gwybodaeth arall a ddarparwyd, mae'n amlwg bod y maes gwrsylla yn cynhyrchu gofyniad digonol am lafur gan o leiaf un gweithiwr amser llawn, fel y nodir yn TAN 6. Fodd bynnag, gan y gwelaf nad oes angen swyddogaethol wedi'i sefydlu, mae'n dilyn na ellir cyflawni'r prawf amser.
17. Gan droi at y prawf ariannol, mae TAN 6 yn datgan bod angen tystiolaeth o berfformiad economaidd gwirioneddol neu bosibl, er mwyn dangos bod y busnes yn ariannol gadarn a bod ganddo ragolygon da o barhau yn economaidd gynaliadwy am gyfnod rhesymol o amser. Mae paragraff 4.10.2 yn datgan bod angen y prawf ariannol hefyd i asesu maint yr annedd y gall y fenter fforddio ei hadeiladu a'i chynnal.
18. Cyflwynwyd gwybodaeth ariannol yn ymwneud â blynyddoedd blaenorol, ac mae'n dangos bod y busnes yn ariannol gadarn, ac ochr yn ochr â'r gwelliannau a'r buddsoddiad y mae'r apelyddion wedi'u gwneud, rwyf o'r farn bod rhagolygon da y bydd hyn yn parhau i fod yn wir yn y dyfodol. Fodd bynnag, er bod sicrwydd cyffredinol wedi'i roi ynghylch gallu'r busnes i adeiladu a chynnal yr annedd a gynigir, ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth ariannol i gadarnhau'r sylwadau hyn. Felly, nid wyf yn ystyried bod y prawf ariannol wedi'i fodloni.
19. O ran y prawf annedd arall, nid oes unrhyw anheddau nac adeiladau eraill ar y safle, ac oherwydd y math o adeilad a'i ddefnydd gweithredol o fewn y busnes, ni fyddai'r sied storio gyfagos yn addas ar gyfer ei haddasu at ddefnydd preswyl. Mae paragraff 6.2 y Canllawiau Ymarfer yn nodi, ymhlith pethau eraill, y bydd angen i ymgeiswyr ddangos "pam nad yw'r tai sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal leol yn addas i ddiwallu angen swyddogaethol y fenter neu pam nad ydynt ar gael; er enghraifft, oherwydd natur anghysbell canolfan y fenter, cost uchel tai ar y farchnad agored, neu ddiffyg argaeledd mathau priodol o dai yn gyffredinol." O ystyried fy nghanfyddiad nad yw'r prawf swyddogaethol wedi'i fodloni yn yr achos hwn, rwyf o'r farn y gallai unrhyw ofynion llafur yn ymwneud â'r maes gwrsylla gael eu bodloni o bosibl gan annedd sydd wedi'i lleoli i ffwrdd oddi wrth y safle.
20. Nodaf y sylwadau ynghylch cost uchel tai yn ardal Aberdyfi ac adlewyrchir hyn yn y wybodaeth a ddarparwyd gan yr apelyddion ynghylch yr eiddo sydd ar gael. Fodd bynnag, mae Datganiad Achos yr apelyddion yn nodi bod aneddiadau eraill yn yr ardal ehangach lle byddai tai yn fforddiadwy. Mae'n ymddangos bod sylwadau a wnaed yn y gwrandawriad ynghylch costau byw oddi ar y safle yn gwrth-ddweud hyn, ond nid ydynt wedi'u cefnogi gan unrhyw fanylion nac unrhyw wybodaeth feintiol. Felly, nid yw'n bosibl cadarnhau'n hyderus p'un a oes diffyg tai fforddiadwy o fewn aneddiadau eraill. Er bod yr aneddiadau eraill hyn ymhellach o'r safle, ystyriaf fod y pellteroedd dan sylw yn ddigon agos i fod yn rhesymol ar gyfer cymudo dyddiol. Mae pryderon a godwyd, ynghylch y posibilrwydd o ffyrdd yn cael eu cau a'u heffaith ar amseroedd teithio, yn gyffredinol eu natur a heb eu hategu gan fanylion, sy'n golygu na allaf benderfynu a fyddai digwyddiadau o'r fath yn codi mor aml, ac am y fath gyfnod, fel eu bod yn fygythiad

realistig i hyfywedd y busnes. Oherwydd y diffyg gwybodaeth a ddarparwyd, nid wyf o'r farn bod y prawf annedd arall wedi'i fodloni.

21. Yn olaf, mae'r prawf gofynion cynllunio eraill yn ei gwneud yn ofynnol i anheddau mentrau gwledig "fodloni'r gofynion cynllunio arferol o ran dylunio, cynaliadwyedd a mynediad" (TAN 6, paragraff 4.12.1). Mae'r Awdurdod o'r farn bod maint ac edrychiad y cynnig yn dderbyniol, ac o ystyried graddfa a ffurf gymharol syml yr annedd, ynghyd â'r wybodaeth a ddarparwyd ynghylch gofynion tai fforddiadwy, rwy'n cytuno â'r asesiad hwn. Fodd bynnag, er y byddai'r annedd wedi'i lleoli yn agos at adeiladau presennol, mae gennyf rywfaint o bryder ynghylch ei meddiannaeth bosibl yn y dyfodol fel tŷ fforddiadwy sydd ar gael yn gyffredinol ar ôl i angen yr apelyddion ddod i ben. O ystyried lleoliad yr annedd rhwng dau adeilad gweithredol allweddol, ac yn agos at y ddau, ceir posibilrwydd y gallai fod effeithiau negyddol ar amodau byw meddianwyr yn y dyfodol o ran sŵn a phreifatrwydd, a allai niweidio defnydd yr annedd, yn groes i baragraff 7.4 y Canllawiau Ymarfer. Ar y sail hon, rwyf o'r farn nad yw'r prawf gofynion cynllunio eraill wedi'i fodloni.
22. I gloi, deuf i'r casgliad nad yw'r cynnig yn bodloni'r profion a nodir, ac felly ni roddwyd digon o gyfiawnhad i fodloni gofynion polisi cynllunio lleol a chenedlaethol mewn perthynas â darparu annedd menter wledig, yn benodol Polisiâu Strategol A a C y CDLI, a TAN 6.

Materion Eraill

23. Cyfeiriwyd at enghreifftiau o anheddau mentrau gwledig yn cael caniatâd cynllunio ar sail gofynion TAN 6 mewn meysydd gwerysyla eraill. Fodd bynnag, yn ogystal â bod y rhain wedi'u lleoli y tu allan i ardal yr Awdurdod, nid wyf wedi cael manylion llawn y datblygiadau hyn, ac felly, ni allaf fod yn sicr bod modd cymharu'r enghreifftiau hyn yn uniongyrchol â chynnig yr apêl. Beth bynnag, rhaid i mi benderfynu ar yr apêl yn ôl ei rhinweddau ei hun.
24. Rwy'n cydnabod y gefnogaeth a gafwyd i'r cynnig gan Gyngor Cymuned Aberdyfi, a phreswylwyr a busnesau eraill yn yr ardal leol. Fodd bynnag, nid yw hyn, ynddo'i hun, yn gwneud y cynnig yn dderbyniol ac nid yw'n gorbwyso'r gwrthdaro amlwg â'r cynllun datblygu mabwysiedig a pholisi cenedlaethol yn yr achos hwn. Ni fyddai'r gwrthdaro sylfaenol hwn ychwaith yn cael ei orbwyso gan y manteision cymharol gyfyngedig o ddarparu un cartref fforddiadwy. Yn yr un modd, byddai unrhyw fanteision o ganlyniad i lai o deithiau cerbydau ac allyriadau yn gyfyngedig o ran eu graddfa ac yn lleol eu natur, ac felly, ni roddir llawer o bwys i'r rhain.
25. Gwnaed sylwadau ynghylch manteision i'r economi wledig, twristiaeth, trafndiaeth gynaliadwy a pha mor dderbyniol yw'r cynnig mewn perthynas â'r polisiâu cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol. Fodd bynnag, mae materion o'r fath yn ymwneud â busnes y maes gwerysyla, ac fel y canfûm, ni ddangoswyd bod yr annedd a gynigir yn angenrheidiol i sicrhau gweithrediad parhaus y fenter, na'r manteision a grybwyllwyd.
26. Nodaf bryderon yr apelyddion ynghylch y canllawiau a ddarparwyd gan yr Awdurdod yn ystod y cam ymgeisio; fodd bynnag, nid yw hyn yn newid fy asesiad o rinweddau cynllunio'r cynnig. Ni allaf roi arweiniad ychwanegol i'r apelyddion gan fod hyn y tu allan i'm hawdurdodaeth wrth benderfynu ar yr apêl hon, a byddai'n llesteirio penderfyniadau'r Awdurdod yn y dyfodol.
27. Wrth wneud fy mhenderfyniad, rwyf wedi ystyried y ddyletswydd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy o dan adran 3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICD). Rwyf wedi ystyried y ffyrdd o weithio a amlinellir yn adran 5 Deddf LICD ac rwyf o'r farn bod y penderfyniad hwn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy ei

gyfraniad at un neu fwy o amcanion llesiant Gweinidogion Cymru, yr amlinellir eu bod yn ofynnol yn ôl adran 8 Deddf LICD.

Casgliad

28. Am y rhesymau a roddir uchod, gwrthodir yr apêl.

Claire MacFarlane

AROLYGYDD

YMDDANGOSIADAU

AR RAN YR APELYDDION:

| | |
|------------------|---------|
| Mr Grant Stott | Apelydd |
| Mrs Sadie Porter | Apelydd |

AR RAN YR AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL:

| | |
|-----------------|---------------------------------|
| Ms Sophie Berry | Prif Swyddog Cynllunio Dros Dro |
|-----------------|---------------------------------|

PARTÏON Â BUDDIANT:

| | |
|----------------------|-------------------------|
| Cyng. Catrin O'Neill | Cyngor Cymuned Aberdyfi |
| Cyng. Brian Kelly | Cyngor Cymuned Aberdyfi |

DOGFENNAU A GYFLWYNWYD YN Y GWRANDAWIAD

1. Polisi Strategol G, Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031



Penderfyniad ar yr Apêl

Ymweliad â safle a wnaed ar 14 Mehefin 2022

gan I Stevens BA (Hons) MCD MRTPI

Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru

Dyddiad: 23/08/2022

Appeal Decision

Site visit made on 14 June 2022

by I Stevens BA (Hons) MCD MRTPI

an Inspector appointed by the Welsh Ministers

Date: 23/08/2022

Cyf yr Apêl: CAS-01719-N0J6K1

Cyfeiriad y safle: Hen Gaerffynnon, Ffordd Isaf, Harlech, LL46 2RA

Mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo'r awdurdod i benderfynu ar yr apêl hon i mi fel yr Arolygydd penodedig.

- Gwneir yr apêl o dan adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.
- Gwneir yr apêl gan Mr R Mathias yn erbyn penderfyniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- Y datblygiad arfaethedig yw dymchwel portsh blaen a phenty ochr presennol, a chodi estyniadau unllawr newydd i'r blaen a'r ochr.

Penderfyniad

1. Gwrthodir yr apêl.

Materion Gweithdrefnol

2. Rwyf wedi cymryd cyfeiriad y safle o'r Ffurflen Gais gan ei fod yn fwy manwl na hynny a ddatganwyd ar yr Hysbysiad Penderfyniad a'r Ffurflen Apêl. Mae'r disgrifiad o'r datblygiad yn gwahaniaethu hefyd rhwng ffurflenni, ac er fy mod yn fodlon eu bod i gyd yn cyfeirio at yr un cynnig, rwyf wedi cymryd y disgrifiad o'r Hysbysiad Penderfyniad am ei fod yn fwy cryno.

Prif Fater

3. Y prif fater yw effaith y datblygiad arfaethedig ar gymeriad a golwg Hen Gaerffynnon a'r ardal amgylchynol, gan roi ystyriaeth arbennig i'w leoliad yn y Parc Cenedlaethol.

Rhesymau

4. Mae safle'r apêl yn cynnwys annedd sengl a gardd wedi'u lleoli ar ochr y bryn rhwng Hen Ffordd Llanfair a'r A496. Mae llwybr troed serth yn rhedeg ar hyd ochr safle'r apêl ac mae'n darparu mynediad i'r eiddo. Mae'r ochr bryn gwledig yn ddymunol ac wedi'i nodweddu gan lystyfiant dwys, golygfeydd agored tuag at yr arfordir cyfagos a datblygiad cyfyngedig yn gyfagos i safle'r apêl. Mae'r topograffi a'r llystyfiant yn cuddio golygon o'r

annedd o Hen Ffordd Llanfair, ond gellir ei gweld mewn cipolygon ar hyd yr A496. Mae wedi'i lleoli y tu allan i bentref Llanfair.

5. Mae golwg syml a thraddodiadol i annedd yr apêl, yn adeilad deulawr gyda waliau cerrig a thoeon llechi, simnai, a ffenestri a drysau ffrâm pren. Mae ganddo bortsh blaen a phenty i'r ochr y ceir mynediad ar wahân iddo. Mae'r eiddo'n wynebu tuag at yr arfordir ar ei brif wedd, ac mae'n torri i mewn i ochr y bryn oherwydd y llethr serth.
6. Byddai'r cynnig yn disodli strwythurau'r portsh a'r penty presennol gydag estyniadau unllawr i'r blaen a'r ochr. Byddent wedi'u cysylltu ar y wedd flaen i ddarparu mynediad i mewn i'r estyniad ochr. Nid yw'r Awdurdod wedi gwrthwynebu'r estyniad ochr arfaethedig, a fyddai'n cyflwyno cladin pren i'w weddau ochr a chefn, a byddai'n is o ran uchder nag annedd yr apêl, ac ni welaf unrhyw reswm i ddod i gasgliad gwahanol.
7. Byddai'r estyniad blaen arfaethedig wedi'i ongli fymryn o annedd yr apêl, gan adael rhan o'r wedd flaen bresennol yn weledol. Byddai'r strwythur gryn dipyn yn fwy na'r portsh blaen y mae'n ei ddisodli a byddai'n meddiannu'r rhan fwyaf o'r wedd flaen o dan y to presennol. Er y byddai'r estyniad blaen yn llai o ran ôl-troed ac yn is nag uchder annedd yr apêl, byddai'r wedd flaen yn cael ei newid yn sylweddol, i'r graddau y byddai'n gorlethu'r annedd bresennol yn weledol, ac ni fyddai ei ffurf wreiddiol i'w gweld mwyach. Byddai ei golwg draddodiadol gyda'i chyfansoddiad o agoriadau ffenestri llai a gorchudd wal gerrig yn cael ei llyncu gan yr estyniad a fyddai'n cyflwyno cryn dipyn o wydr ar ffurf wahanol i'r ffenestri presennol. Byddai ffurf y to yn amharu hefyd ar olwg syml y wedd flaen drwy gadw'r ddwy ffenestr hollt llawr cyntaf a gosod y to o amgylch yr agoriadau hyn. Byddai ei drefniant yn methu integreiddio'n sympathetig gydag annedd yr apêl.
8. Er bod golygon o annedd yr apêl wedi'u cyfyngu i raddau helaeth i'r llwybr troed cyfagos ac o safle is ar ochr y bryn ar hyd yr A406, wrth ei weld yn agos, byddai'r estyniad blaen arfaethedig, oherwydd ei ffurf, lleoliad a golwg, yn tynnu oddi wrth gymeriad a golwg annedd yr apêl. O ran ei effaith ar yr ardal ehangach, byddai'n cael ei weld yng nghydestun anheddau eraill ar hyd y ffyrdd ar ochr y bryn, sydd â golwg draddodiadol iddynt gyda'i gilydd. Nodaf y dystiolaeth a gyflwynwyd sy'n cyfeirio at estyniadau anheddau eraill yn yr ardal uniongyrchol. Maent yn cynnwys enghreifftiau o estyniadau pren a gwydr unllawr gerllaw. Fodd bynnag, er nad yw manylion pob cynllun gennyf o'm blaen, byddai'n ymddangos eu bod yn gwahaniaethu o ran eu manylion. Yn achos Groes Las a Tyn y Mynydd, mae'n ymddangos mai adeiladau amaethyddol wedi'u haddasu ydynt, ond annedd â ffyrntiad gwreiddiol yw Hen Gaerffynnon. Mae wedi cadw ei olwg draddodiadol drwy newidiadau dilynol. Mae yna wahaniaethau rhwng y mathau hyn o ddatblygiad, a serch hynny, rwyf wedi ystyried cynnig yr apêl ar ei rinweddau ei hun.
9. Rwy'n gwerthfawrogi y byddai'r estyniadau arfaethedig yn darparu lle byw ychwanegol i feddianwyr yr eiddo, a bod y gosodiad presennol yn golygu y gallai estyniadau sy'n cysylltu fod yn heriol. Fodd bynnag, nid yw'r ffactorau hyn yn gwrthbwysu'r niwed yr wyf wedi'i nodi.
10. Am y rhesymau hyn, byddai'r estyniad blaen arfaethedig yn gwrthdaro â Pholisi Datblygu 1 Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Eryri, a fabwysiadwyd yn Chwefror 2019, sy'n mynnu bod cynigion yn gwarchod a gwella 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol. Byddai'r estyniad blaen yn gwrthdaro hefyd â Pholisi Datblygu 15 y CDLI sydd, ymhlith pethau eraill, yn mynnu nad yw estyniadau i anheddau presennol yn niweidiol i'r annedd na chymeriad yr amgylchoedd y mae wedi'i lleoli ynddynt.
11. Ni ddarparwyd tystiolaeth i mi i ddangos bod annedd yr apêl wedi'i chynnwys ar Gofrestr Adeiladau Traddodiadol yr Awdurdod. Serch hynny, mae nodweddion annedd draddodiadol i'r eiddo, gyda'i wedd flaen ddiymhongar ac edrychiad syml yn nhrefniant yr

agoriadau a ffurf y to. Ni fyddai'r cynnig yn cadw'r cyfraniad a wneir gan yr adeilad at gymeriad y Parc Cenedlaethol. Er y byddai'r cynnig yn ymgorffori toeon llechi naturiol ac y gallai manylion gael eu sicrhau gan amod i gydymffurfio â Pholisi 6 y CDLI, byddai'r cynnig yn groes i Bolisi Datblygu 7 CDLI Eryri, sy'n cefnogi cynigion i newid neu ymestyn adeilad traddodiadol dim ond pan ellir dangos na fydd niwed sylweddol i gymeriad hanesyddol neu bensaernïol arbennig a gosodiad yr adeilad neu nodweddion hanesyddol.

Mater Arall

12. Mae safle'r apêl yn lletem las. Mae Polisi Datblygu 5 y CDLI yn datgan na chaniateir datblygiad amhriodol mewn ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n lletemau glas er mwyn diogelu'r natur agored a rhwystro cyfuniad aneddiadau. Mae'r testun ategol i Bolisi Datblygu 5 yn datgan y byddai datblygiad o fewn lletemau glas yn amhriodol oni bai y gellir ei gyfiawnhau am un o nifer o resymau, gan gynnwys estyniadau neu newidiadau cyfyngedig i adeiladau presennol. Mae'r ymagwedd hon yn gyson â pharagraff 3.75 o Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, Chwefror 2021), sy'n rhestru eithriadau i ddatblygiad amhriodol yn y lletem las.
13. Mae testun ategol y CDLI yn ychwanegu, ar hyd arfordir Arduwy, sy'n cynnwys lleoliad safle'r apêl, fod lledaeniad datblygiadau i ardaloedd rhwng aneddiadau wedi erydu'n raddol natur agored yr ardaloedd hyn ac mae'n bygwth cyfuno un anheddiad â'r llall. Byddai'r estyniadau arfaethedig wedi'u cynnwys o fewn safle'r apêl, ac o ystyried f'arsylwadau i ar y golygfeydd agored a datblygiad cyfyngedig yn amgylchedd uniongyrchol safle'r apêl, ar y raddfa arfaethedig, ni fyddent yn arwain at gyfuno Harlech a Llanfair. Ni fyddai graddfa'r estyniadau arfaethedig yn ormodol o gymharu â'r annedd bresennol a'i phlot, ac ni fyddai'n lleihau natur agored y safle'n sylweddol.
14. Rwyf yn fodlon felly y byddai'r cynnig yn cynnwys estyniadau cyfyngedig i Hen Gaerffynnon, gan gydymffurfio â pholisïau lleol a chenedlaethol a gynlluniwyd i warchod y lletem las. Ni fyddai'r cynnig, felly, yn cynnwys datblygiad amhriodol yn y lletem las. Fodd bynnag, er y byddai'r cynnig yn bodloni'r polisi lletem las, byddai'r estyniad blaen yn niweidiol i gymeriad a golwg annedd yr apêl a'r ardal amgylchynol.

Casgliad

15. Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, a chan ystyried yr holl faterion eraill a godwyd, deufaf i'r casgliad y dylid gwrthod yr apêl.
16. Wrth wneud fy mhenderfyniad, rwyf wedi ystyried gofynion adrannau 3 a 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rwyf o'r farn fod y penderfyniad hwn yn gyson ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf trwy ei gyfraniad at amcan Llesiant Gweinidogion Cymru i wneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt.

I Stevens

Arolygydd